

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2020	Ross Davies – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:Deisebau@cynulliad.cymru">Deisebau@cynulliad.cymru</a>

---

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 39)
  
- 2 **Deisebau COVID-19**
  - 2.1 P-05-968 Talu grantiau Coronafeirws i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, yr un fath â gweddill y DU  
(Tudalennau 40 – 49)
  - 2.2 P-05-970 Gofynnwch i'r Senedd ailystyried ei phenderfyniad i beidio â rhoi cyllid brys i swau ac acwaria  
(Tudalennau 50 – 59)

**Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd (2.3 a 2.4)**

- 2.3 P-05-971 Dylid llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth COVID-19 er mwyn caniatáu i bobl deithio yng Nghymru  
(Tudalennau 60 – 66)
- 2.4 P-05-989 Cadw'r cyfyngiadau a osodwyd gan ddeddfwriaeth Covid 19, caniatáu teithio o fewn radiws o 5 milltir yn unig yng Nghymru  
(Tudalen 67)



2.5 P-05-972 Dylid darparu o leiaf bedair awr y dydd o addysg fyw i bob disgybl tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19

(Tudalennau 68 – 76)

2.6 P-05-973 Ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt cyn belled â'u bod yn gosod mesurau cadw pellter cymdeithasol llym

(Tudalennau 77 – 84)

### **3 Deisebau newydd**

3.1 P-05-965 Annog y Llywodraeth i gyflwyno ward ar wahân, ar gyfer teuluoedd sy'n colli plentyn drwy gamesgoriad

(Tudalennau 85 – 93)

3.2 P-05-966 STOPIWCH yr isafbris am alcohol

(Tudalennau 94 – 102)

3.3 P-05-969 Ymchwiliwch i Reoliadau Drafft y Gronfa Ddata Addysg 2020 – diangen ac yn tanseilio hawliau dynol

(Tudalennau 103 – 117)

### **4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

#### **Addysg**

#### **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd (4.1 a 4.2)**

4.1 P-05-922 Tynnu'n ôl y canllawiau arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref

(Tudalennau 118 – 133)

4.2 P-05-923 Ydych chi'n gwranddo arnom ni Hawliau a Pharch i Addysg yn y Cartref

(Tudalennau 134 – 137)

#### **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

4.3 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant  
(Tudalennau 138 – 144)

4.4 P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol  
Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol  
(Tudalennau 145 – 149)

4.5 P-05-946 Achub adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol  
Morgannwg  
(Tudalennau 150 – 151)

## **Tai a Llywodraeth Leol**

4.6 P-05-864 Gwahardd y defnydd o Bensaerniaeth Elyniaethus  
(Tudalennau 152 – 153)

## **Economi a Thrafnidiaeth**

4.7 P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55 A494)  
(Tudalennau 154 – 159)

4.8 P-05-935 Gwahardd Parcio ar Balmentydd – Addewid Palmant (Pavement  
Promise)  
(Tudalennau 160 – 191)

## **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

4.9 P-05-908 CF3 yn erbyn y Llosgydd  
(Tudalennau 192 – 212)

## **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

4.10 P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONTFAEN RHAG  
EI DYMCHWEL  
(Tudalennau 213 – 220)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

**P-05-968 Talu grantiau Coronafeirws i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, yr un fath â gweddill y DU**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Simon Hill, ar ôl casglu cyfanswm o 360 lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

Ar 17 Mawrth 2020 cyhoeddodd y Canghellor y byddai pob busnes bach â llai na 9 o weithwyr ac sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn cael grant o £10,000 (y Gronfa Grantiau i Fusnesau Bach).

Ar 8 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw diwygiedig o ran llety hunanarlwyo. Mae'r newid hwn mewn polisi wedi eithrio miloedd o fusnesau dilys rhag cael cyllid grant sydd ei angen arnynt yn druenus, gan nad oes ganddynt incwm yn ystod argyfwng y Coronafeirws.

## **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfodi pob busnes llety gwyliau i gau oherwydd argyfwng y Coronafeirws, ac mae'r holl leoedd a gadwyd wedi'u canslo. Erbyn hyn, nid oes gan y busnesau hynny unrhyw incwm ond maent yn dal i orfod gwario ar ariannu a chynnal a chadw'r eiddo, a gallai hynny beri caledi ariannol mawr.

Yng ngweddill y DU, mae pob awdurdod lleol wedi talu'r cyllid grant i fusnesau gosod gwyliau hunanarlwyo. Mae'n annheg iawn nad yw'r grantiau hyn a ariennir yn ganolog yn cael eu cymhwyso'n gyfartal ledled y wlad, ac yn groes i addewid y Canghellor.

Mae'r newid hwn mewn polisi eisoes yn achosi problemau yn yr ardal, fel y gwelir yn yr erthygl hon yn y wasg leol:

<https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/second-home-crackdown-hitting-genuine-18139173>

Llofnodwch i ofyn i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r newid polisi hwn a dosbarthu'r Gronfa Grantiau i Fusnesau Bach yn deg fel y gwnaed yng ngweddill y DU.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Talu grantiau Coronafeirws i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, yr un fath â gweddill y DU

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Mehefin 2020  
Petitions Committee | 23 June 2020

Cyfeirnod: RS20/12927/2

Rhif y ddeiseb : P-05-968

**Teitl y ddeiseb** : Talu grantiau Coronafeirws i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, yr un fath â gweddill y DU

**Cynnwys y ddeiseb** : Ar 17 Mawrth 2020 cyhoeddodd y Canghellor y byddai pob busnes bach â llai na 9 o weithwyr ac sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn cael grant o £10,000 (y Gronfa Grantiau i Fusnesau Bach).

Ar 8 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw diwygiedig o ran llety hunanarlwyo. Mae'r newid hwn mewn polisi wedi eithrio miloedd o fusnesau dilys rhag cael cyllid grant sydd ei angen arnynt yn druenus, gan nad oes ganddynt incwm yn ystod argyfwng y Coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfodi pob busnes llety gwyliau i gau oherwydd argyfwng y Coronafeirws, ac mae'r holl leoedd a gadwyd wedi'u canslo. Erbyn hyn, nid oes gan y busnesau hynny unrhyw incwm ond maent yn dal i orfod gwario ar ariannu a chynnal a chadw'r eiddo, a gallai hynny beri caledi ariannol mawr.

Yng ngweddill y DU, mae pob awdurdod lleol wedi talu'r cyllid grant i fusnesau gosod gwyliau hunanarlwyo. Mae'n annheg iawn nad yw'r grantiau hyn a ariennir yn ganolog yn cael eu cymhwyso'n gyfartal ledled y wlad, ac yn groes i addewid y Canghellor.



Mae'r newid hwn mewn polisi eisoes yn achosi problemau yn yr ardal, fel y gwelir yn yr erthygl hon yn y wasg leol:

<https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/second-home-crackdown-hitting-genuine-18139173>

Llofnodwch i ofyn i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r newid polisi hwn a dosbarthu'r Gronfa Grantiau i Fusnesau Bach yn deg fel y gwnaed yng ngweddill y DU.

## 1. Y cefndir

Fel rhan o'i hymateb i bandemig y coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu nifer o **gynlluniau i gefnogi busnesau**, gan gynnwys drwy grantiau sy'n gysylltiedig â gwerth ardrethol eiddo.

Mae gwerth ardrethol eiddo yn amcangyfrif o faint y gellid ei rentu fesul blwyddyn ar y farchnad agored ar adeg benodol. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn asesu gwerth ardrethol yr holl eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr.

Ar gyfer y rhan fwyaf o eiddo, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn casglu manylion tystiolaeth rhentu. Mae'n pennu gwerthoedd sylfaenol cyffredin fesul metr sgwâr ar gyfer eiddo tebyg mewn ardal, ac yna'n addasu'r rhain er mwyn ystyried nodweddion unigol eiddo ac yna'n cymhwysu hyn i arwynebedd llawr yr eiddo.

Mae eiddo megis tafarnau a gwestai mawr lle mae'r gwerth rhentu'n gysylltiedig â throsiant yn cael eu prasio gan ddefnyddio'r dull derbynebaw a gwariant. Mae hyn yn defnyddio eu potensial masnachu, a'u proffidioldeb, fel dangosydd gwerth. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cytuno ar god ymarfer ar gyfer prasio tafarnau â chyrff cynrychioliadol masnach sy'n nodi sut mae'r dull hwn yn gweithio'n ymarferol. Nid yw eiddo penodol megis ysbyty neu waith dur fel arfer yn cael eu rhentu. Ar gyfer eiddo megis hyn, defnyddir dull a elwir yn sail contractwr i neilltuo gwerth ardrethol i eiddo. Mae hyn yn edrych ar gost disodli'r adeilad ac, ar ôl ei addasu, yn cymryd canran benodedig o'r gost honno fel y gwerth ardrethol.

Mae eiddo yn ddomestig ac felly'n destun treth gyngor os caiff ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion llety byw. O ran asesu ardrethi busnes ar gyfer eiddo neu



gartref gwyliau hunanarlwyo, o 1 Ebrill 2010 ymlaen yng Nghymru, mae eiddo yn annomestig, ac felly'n rhwymedig i dalu ardrethi annomestig, os yw Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn fodlon:

- y bydd ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr sy'n dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu fwy yn y 12 mis canlynol;
- bod diddordeb y trethdalwr yn yr eiddo yn galluogi iddo ei rentu am gyfnodau o'r fath;
- yn y 12 mis cyn yr asesiad bu ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr yn dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu fwy; a
- bod y cyfnodau byr y'u gosodwyd mewn gwirionedd yn dod i gyfanswm o 70 diwrnod o leiaf yn ystod y cyfnod hwnnw.

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth a byddant yn parhau mewn grym nes y ceir rhybudd pellach. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaeth ar berchenogion busnesau o'r fath a gwmpesir gan y rheoliadau hynny (sy'n cynnwys eiddo hunanarlwyo) i ymdrechu hyd eithaf eu gallu i adael y safle, heblaw am y rhai a gwmpesir mewn rhai eithriadau, a chymryd camau i gau at ddefnydd masnachol.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 19 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd becyn cymorth i fusnesau sy'n ymdrin â COVID-19. Daeth y cynllun hwn yn dilyn cyhoeddiad ar 17 Mawrth ynghylch cymorth i fusnesau.

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys Rhyddhad Ardrethi Busnes 100 y cant ar gyfer pob eiddo a ddefnyddir ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch. Diwygiwyd hyn wedyn ar 24 Mawrth i beidio â chynnwys eiddo sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu fwy.

Cyflwynodd y pecyn cymorth ddau grant i fusnesau sy'n bodloni meini prawf penodol, sy'n cael eu darparu drwy awdurdodau lleol. Y rhain yw:

- **Grant 1:** Mae grant o £25,000 ar gael i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch mewn adeiladau sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000. Mae hyn yn cynnwys busnesau sy'n meddiannu eiddo fel siopau, bwytai, caffis, lleoedd yfed, sinemâu, lleoliadau cerddoriaeth fyw, gwestai, tai llety, lletyau a llety hunanarlwyo.

- **Grant 2:** Grant o £10,000 i bob busnes sy'n gymwys i gael **Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach** yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai.

Estynnwyd y cynllun grant ar **6 Mai** i bob trethdalwyr sy'n gymwys i gael rhyddhad elusennol a rhyddhad i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol, sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch mewn eiddo sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai. Gallent gael mynediad at grant o £10,000 drwy'r cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau** ynghylch y grantiau COVID-19 i fusnesau sy'n gysylltiedig ag ardrethi busnes. I ddechrau, nid oedd hyn yn cynnwys meini prawf penodol mewn perthynas ag eiddo hunanarlwyo. Fodd bynnag, yn dilyn hynny, mae meini prawf o'r fath wedi'u cynnwys yn y canllawiau. O 20 Ebrill 2020 ymlaen, mewn perthynas â llety hunanarlwyo, ni fydd eiddo yn gymwys am y grantiau oni bai fod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Bod y llety hunanarlwyo yn gallu dangos cyfrifon masnachu ar gyfer y ddwy flynedd yn uniongyrchol cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
- Bod y llety hunanarlwyo wedi cael ei osod am o leiaf 140 diwrnod ym Mlwyddyn Ariannol 2019-20
- Mai'r busnes llety hunanarlwyo yw prif ffynhonnell incwm y perchennog (o leiaf 50 y cant).

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynnig grantiau tebyg i fusnesau yn Lloegr:

- Grant o **£10,000** i fusnesau bach sy'n gymwys i gael **Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach** neu **Ryddhad Ardrethi Gwledig** (mae'r trothwy ar gyfer busnesau bach yn Lloegr yn golygu eiddo sydd â gwerth adrethol o dan £15,000).
- Grant o **£25,000** i **busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden** sydd â gwerth ardrethol dros £15,000 ac o dan £51,000.

Nid yw meini prawf cymhwysedd ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol ag **eiddo hunanarlwyo** wedi'u cynnwys yng **nghanllawiau** Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae pandemig y coronafeirws, gan gynnwys cymorth i fusnesau, wedi bod yn ganolbwynt i weithgarwch Senedd Cymru yn ystod y pandemig.

Gofynnwyd i Brif Weinidog Cymru am y newid i'r canllawiau ynghylch eiddo hunanarlwyo yn y Cyfarfod Llawn ar **29 Ebrill**, ac fe nododd y canlynol:

Rydym ni wedi newid y cyngor i lywodraeth leol ynghylch llety hunanarlwyo oherwydd y sylwadau a dderbyniwyd gennym ni gan awdurdodau lleol yng Nghymru... nad oedd y system yn gweithredu yn y ffordd a oedd yn gwneud yn siŵr bod cymorth yn mynd i'r bobl iawn.

Aeth y Prif Weinidog Cymru ymlaen i ddweud y canlynol:

Rydym ni wedi ymateb i'r sylwadau hynny. Mae gennym ni gyfres o reolau ar waith yr wyf i'n credu sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhwng pobl a oedd yn dibynnu ar hyn fel eu prif incwm a'u prif fusnes, a phobl nad oedd hyn mor ganolog â hynny i'w hincwm, ac a fydd yn caniatáu i ni ddefnyddio'r arian hwnnw a fyddai fel arall yn mynd i bobl o fantais ymylol i eraill sydd ei angen yn llawer fwy taer. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn, felly os bydd awdurdodau lleol yn dod o hyd i achosion... ac os ydyn nhw o'r farn ei bod hi'n iawn i arfer y disgresiwn hwnnw, maen nhw'n gallu gwneud hynny o dan y rheolau yr ydym ni wedi eu llunio gyda nhw.

Yn ystod sesiwn Pwyllgor yr Economi, Sgiliau a Thrafnidiaeth (30 Ebrill), wrth drafod y meini prawf cymhwyster ychwanegol, dywedodd eiriolwr polisi o **Gynghrair Twristiaeth Cymru** y canlynol:

As an industry, and particularly with regard to the self-catering sector, we are quite upset, really, about the fact that this secondary level of eligibility was brought in. It was as a result of—. I believe Julie James sent out a letter to the local authorities amending, in effect, what the Valuation Office Agency criteria are for evaluating a self-catering or a furnished holiday letting business. In effect, if you're a furnished holiday letting business, under that criteria, to be able to be eligible for the non-domestic business rates, you have to be open for—open that is—for 140 days, and you have to let for a minimum of 70 days. That threshold was raised. We don't know for what reason at all. But what it's meant is there's been some confusion, I think, and it's also allowed—or some local

authorities, maybe not because they particularly wanted to, but, because of that criteria, they're now having to do greater analysis of self-catering units to establish whether they are actually businesses or not. We believe that that's wrong, because this is money that has come from central Government at a time of greatest need, and a lot of these businesses are actually suffering hardship at the moment, and, six weeks in, they still haven't had that cash.

Dyweddodd Prif Weinidog Cymru hefyd ar 22 Ebrill:

Rwy'n fwy na pharod i ddweud y byddwn yn parhau i adolygu'r dystiolaeth. Ac os oes angen mireinio, byddwn yn dychwelyd at hynny:

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-968  
Ein cyf/Our ref RE/00339/20

Janet Finch-Saunders AS  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

23 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn ag ardrethi annomestig a chymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau hunanddarpar, a anfonwyd yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth gwerth £1.7 biliwn i helpu busnesau yng Nghymru yn ystod yr argyfwng coronafeirws. Mae'r pecyn yn cynnwys dros £350m i helpu busnesau gyda'u biliau ardrethi annomestig yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch, sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu is, yn cael 100% o ryddhad ardrethi annomestig yn 2020-21. Mae hynny'n golygu na fydd dros 70,000 o fusnesau yng Nghymru yn talu unrhyw ardrethi o gwbl ar gyfer y flwyddyn.

Ochr yn ochr â'r rhyddhad ardrethi ychwanegol, mae £876m ar gael ar gyfer cynllun grantiau newydd i fusnesau. Bydd busnesau a oedd yn gymwys yn flaenorol i gael ein Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach – sef y rheini sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000 – yn cael grant o £10,000. Nid oes unrhyw amodau ynglŷn â nifer y staff a gyflogir gan y busnes. Hefyd bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch, sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000, yn cael grant o £25,000.

Mae grantiau ar gael i fusnesau hunanddarpar ar y sail eu bod yn rhan o un o'r sectorau yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan yr argyfwng COVID-19 a'u bod yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi dwristiaeth yng Nghymru.

Cafodd canllawiau'r grant eu diwygio yn dilyn trafodaeth gydag awdurdodau lleol. Mynegodd rhai awdurdodau gwledig bryderon am y posibilrwydd y gallai grantiau gael eu talu i berchnogion ail gartrefi nad oeddent ond yn gosod eu heiddo yn achlysurol. O 20 Ebrill 2020 ymlaen, mewn perthynas â llety hunanddarpar, ni fydd eiddo yn gymwys i gael grant oni fodlonir y meini prawf canlynol:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae'r llety hunanddarpar yn gallu dangos dwy flynedd o gyfrifon masnachu yn union cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
- Rhaid i'r llety hunanddarpar fod wedi ei osod am gyfnod o 140 o ddiwrnodau neu fwy yn y flwyddyn ariannol 2019-20
- Rhaid mai'r busnes llety hunanddarpar yw prif ffynhonnell incwm y perchennog (isafswm y trothwy yw 50%).

Fodd bynnag mae canllawiau'r cynllun grantiau'r rhoi disgrisiwn i awdurdodau allu gwneud penderfyniadau i ddyfarnu grant i fusnesau unigol, ac i gael y dystiolaeth ychwanegol y mae ei angen gan berchnogion busnesau, cyn gwneud dyfarniad grant. Mae'r disgrisiwn hwn yn berthnasol i benderfyniadau awdurdodau lleol ynglŷn â dyfarnu grantiau i fusnesau yn y categorïau cymwys, gan gynnwys llety hunanddarpar. Mae'r canllawiau wedi cael eu paratoi ar ôl ymgynghori â gweithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.


Mae gwneud penderfyniad i roi cymorth grant ai peidio yn parhau yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol unigol. Mae'r canllawiau presennol ar gael yma:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/grantiau-covid-19-syn-gysylltiedig-ag-ardrethi-annomestig-ar-gyfer-busnesau-yng-nghymru>

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cymorth i fusnesau drwy ei Chronfa Cadernid Economaidd gwerth £500m, a gall busnesau, nad ydynt yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi na chymorth grant, wneud cais iddi. Hefyd, rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i fynd ymhellach â'r cymorth a roddir i fusnesau Cymru.

Yn ogystal â hynny, mae ein gwasanaeth Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn gallu darparu cyngor ar y gwahanol ddewisiadau cymorth sydd ar gael, o gyngor ar gynlluniau ariannol a chadwyni cyflenwi i gyngor ar faterion staffio. Gellir cysylltu â llinell gymorth Busnes Cymru drwy ffonio 03000 603000 i gael gwybodaeth a chyngor ymarferol neu gyfeiriadau at asiantaethau a sefydliadau perthnasol.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## Eitem 2.2

**P-05-970 Gofynnwch i'r Senedd ailystyried ei phenderfyniad i beidio â rhoi cyllid brys i sŵau ac acwaria**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan David Wilkins, ar ôl casglu cyfanswm o 6,299 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

O ganlyniad i incwm a gollwyd oherwydd cau sŵau ac acwaria ar frys yn sgil Covid-19, mae Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn ac eraill yn wynebu argyfwng cyllid. Mae'r Senedd wedi penderfynu peidio â rhoi cyllid brys i'w cefnogi. Oherwydd hyn, mae'r gwaith cadwraeth a'r cyfleoedd addysgol yn y fantol a gall yr ardal golli incwm twristiaeth. Rydym yn gofyn i'r Senedd ailystyried ei phenderfyniad a rhoi'r cymorth hollbwysig hwn.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

# P-05-970 Cyllid brys i sŵau ac acwaria

Y Pwyllgor Deisebau | 07 July 2020  
Petitions Committee | 07 Gorffennaf 2020

Cyfeirnod: RS20/12937-1

Rhif y ddeiseb: P-05-970

**Teitl y ddeiseb:** Gofynnwch i'r Senedd ailystyried ei phenderfyniad i beidio â chefnogi Sŵau ac Acwaria gyda chyllid brys.

**Geiriad y ddeiseb:** O ganlyniad i incwm a gollwyd oherwydd cau sŵau ac acwaria ar frys yn sgil Covid-19, mae Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn ac eraill yn wynebu argyfwng cyllid. Mae'r Senedd wedi penderfynu peidio â rhoi cyllid brys i'w cefnogi. Oherwydd hyn, mae'r gwaith cadwraeth a'r cyfleoedd addysgol yn y fantol a gall yr ardal golli incwm twristiaeth. Rydym yn gofyn i'r Senedd ailystyried ei phenderfyniad a rhoi'r cymorth hollbwysig hwn.

## 1. Cefndir

Mae 30 o sŵau cofrestredig a thrwyddedig yng Nghymru.

Ni fu'n ofynnol i sŵau gau yng Nghymru o dan y *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020*, fel y'i diwygiwyd. Fodd bynnag, maent wedi cau oherwydd, fel yr eglurodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, 'am na fyddent yn gallu cynhyrchu'r nifer o





ymwelwyr a chynhyrchu'r incwm yn sgil hynny i'w gwneud yn hyfyw yn ariannol iddynt agor ar hyn o bryd'.

**Nid** oes cronfa bwrpasol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sŵau ac acwaria yn ystod pandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod sŵau ac acwaria yn gymwys ar gyfer cynlluniau eraill fel y Gronfa Cadernid Economaidd (y manylir arni yn 'y camau gan Lywodraeth Cymru' isod).

Mae'r deisebydd yn defnyddio Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn fel enghraifft o sw sydd mewn anhawster ariannol yn dilyn y cyfyngiadau symud gan fod ei incwm yn dibynnu ar ymwelwyr. Caeodd y sw i ymwelwyr ar 22 Mawrth, er bod staff y sw yn parhau i ofalu am yr anifeiliaid.

Mae Sw Mynydd Cymru wedi sefydlu a tudalen rhoddion. Ar adeg ysgrifennu, mae wedi codi £233,921. Nodir yn y papur:

... with 140 species to care for and reduced runing costs still in excess of £118,000 per month, the National Zoological Society of Wales (our Charity), really does need your support.

Adroddodd y BBC fod sw Borth wedi rhybuddio y gallai fod yn ofynnol iddi ailgartrefu ei anifeiliaid neu gael gwared â hwy drwy ewthanasia o ganlyniad i gau. Mae'r erthygl yn nodi bod llawer o staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo ac, er bod y sw wedi cael grant rhyddhad busnes o £25,000, mae'r arian hwnnw bellach bron â dod i ben. Aiff ymlaen i ddweud ei bod yn costio £3,000 yr wythnos i redeg y sw ac mae hi [perchennog y sw] yn siomedig, er bod Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi cronfa i helpu sŵau yn Lloegr, nid oes cefnogaeth debyg yng Nghymru.

Ar 4 Mai, lansiodd Llywodraeth y DU gronfa cymorth ariannol gwerth £14 miliwn i sŵau ac acwaria yn Lloegr. Nod y cyllid hwn yw helpu sŵau i dalu costau sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid fel bwyd anifeiliaid, gwres a diogelwch. Gall sefydliadau sy'n dod o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 wneud cais am gyfran o'r cyllid. Mae dyfarniadau grant unigol wedi'u capio ar £100,000. Roedd y Datganiad i'r wasg hefyd yn dweud:

There are a number of support schemes already available to zoos, including business rates relief, the business interruption loan scheme and the job retention scheme. This is additional to other available relief such as VAT deferral.

Ni chafodd Llywodraeth Cymru swm canlyniadol o dan fformiwla Barnett o'r cyhoeddiad hwn.

**Cyhoeddodd** Llywodraeth yr Alban gefnogaeth i sŵau ar 16 Mehefin:

This reopening date [29 June] has been announced alongside an emergency funding support package worth £2.6 million. The funding will be split into £1.6 million for grants and £1 million for loans and will be made available to zoos and aquariums across the country for preserving animal welfare.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Codwyd y mater o gyllid ar gyfer sŵau Cymru yn ystod y pandemig yn y Cyfarfod Llawn gan Darren Millar AS, ar 13 Mai. Dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

Ar hyn o bryd, nid ydym wedi ymrwymo i gynllun sw gan fod sŵau yn gallu gwneud cais am arian o'r cynllun cadernid economaidd sydd, fel y byddwch yn ei werthfawrogi, yn unigryw i Gymru. Felly, roedd y cyllid hwnnw yno o'r cychwyn cyntaf, mewn gwirionedd, ar gyfer sŵau. Ond yr hyn a wnaethom ni tua thair neu bedair wythnos yn ôl erbyn hyn - rwy'n credu mai tua 24 Ebrill oedd hi - ysgrifennodd swyddogion at yr holl sŵau yng Nghymru gyda manylion y cynlluniau presennol y bydden nhw'n gymwys i gael eu hariannu ganddyn nhw. Ond fe wnaethom ni hefyd gyhoeddi holiadur ynghyd â'r ohebiaeth honno er mwyn i ni allu nodi pa bryderon lles anifeiliaid allweddol oedd gan y sŵau. Fel yr ydych chi'n ei ddweud, mae yna rai sŵau mawr iawn; rwy'n ymwybodol iawn o Sŵ Mynydd Cymru yn eich etholaeth chi, ac mae rhai yn fach iawn, felly rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn cael syniad gan bob un ohonyn nhw ynglŷn â beth oedd y materion dan sylw.

Roeddwn i hefyd eisiau gweld a oedd unrhyw fylchau ariannu yr oedd angen i ni eu hystyried. Ar hyn o bryd, mae tua 17 [...] o ymatebion wedi'u derbyn. Roedd hynny'n cynnwys dwy arddangosfa anifeiliaid, felly nid ydyn nhw'n sŵau trwyddedig, felly roedd tua 15. Mae'r rhan fwyaf wedi nodi eu bod wedi gallu cael gafael ar y cyllid a oedd ar gael eisoes, a naill ai maen nhw wedi'i dderbyn neu maen nhw wedi gwneud cais am y cyllid o gynlluniau amrywiol y Llywodraeth. Yna aethom ati i ysgrifennu atyn nhw i gyd yn rhoi diweddariad pellach iddyn nhw, rwy'n credu, ar ddechrau'r wythnos hon, mae'n debyg. Felly, byddwn i'n amlwg yn cadw llygad barcud arno ond, ar hyn o bryd, nid wyf yn cyflwyno cynllun penodol oherwydd nid wyf yn credu bod angen hynny ar hyn o bryd.

Ond yn amlwg, mae iechyd a lles anifeiliaid yn bwysig iawn, felly byddwn ni'n ei adolygu'n rheolaidd.

Mae Cronfa Cadernid Economaidd £500 miliwn Llywodraeth Cymru, sydd bellach yn ei hail gam, yn ailagor ar gyfer ceisiadau ddiwedd mis Mehefin. Dywed Llywodraeth Cymru:

Mae'r gronfa'n cynnig rhagor o gymorth ariannol i ddelio ag argyfwng y coronafeirws a bydd yn hanfodol er mwyn helpu sefydliadau i reoli pwysau o ran llif arian. Bwriad hyn yw cau bylchau'r cynlluniau sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru. Mae hon yn ffrwd gyllido ychwanegol sy'n unigryw i Gymru.

Ar 10 Mehefin, mewn ymateb i gwestiwn gan Janet Finch-Saunders AS, dywedodd Ken Skates wrth y Cyfarfod Llawn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud wyth cynnig o gefnogaeth i sŵau yng Nghymru drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd.

Manylir ar gynlluniau cymorth economaidd eraill y gallai sŵau ac acwaria fod yn gymwys iddynt, fel rhyddhad ardrethi busnes, ym mlog Ymchwil y Senedd.

Ar 10 Mehefin manylodd Ken Skates ar y gefnogaeth a roddwyd i Sw Mynydd Cymru:

Mae Sw Mynydd Cymru yn un o'r rhai sydd wedi elwa o'r gronfa cadernid economaidd. Mae hefyd wedi cael budd o gynllun benthyciadau Banc Datblygu Cymru yn sgil y COVID - dau gynllun sy'n unigryw i Gymru, ac mae'r cymorth hwnnw'n £335,000.

Aeth ymlaen i ddweud:

Cyferbynnwch hynny - pe baem wedi cael swm canlyniadol o dan fformiwla Barnett o gronfa sŵau Llywodraeth y DU, byddai'n ddim ond £700,000, sef bron ddwywaith yr hyn a wariwyd ar un sw yn unig yng Nghymru. Mae hynny'n dangos pam y gallwn ddweud yn hyderus fod sŵau yng Nghymru wedi cael eu gwarchod yn well drwy'r pandemig hwn nag mewn manau eraill.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Nid yw Pwyllgorau eraill y Senedd wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Manylir ar y cwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Llawn gan yr Aelodau uchod.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-970  
Ein cyf/Our ref LG/01400/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

29 Mehefin 2020

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr ar 1 Mehefin am Ddeiseb P-05-970, yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i beidio â rhoi arian argyfwng i gefnogi Sŵau ac Acwaria.

Mae'r ddeiseb yn camarwain trwy ddatgan bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â rhoi arian argyfwng i gefnogi Swau ac Acwaria yn sgil Covid-19. Nid felly y mae.

Ni chaf rannu manylion achosion unigol â chi ond mae nifer fawr o'n sŵau ac acwaria wedi derbyn arian o Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru sy'n werth £500 miliwn ac yn unigryw i Gymru.

Rydym wedi rhoi gwybodaeth o'r dechrau i bob sw drwyddedig yng Nghymru am y cynlluniau y gallent wneud cais am arian iddynt. Rydym wedi cysylltu'n rheolaidd â'r sŵau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi dweud eu bod wedi manteisio ar yr hyn sydd ar gael a naill ai wedi cael arian trwy'r cynlluniau amrywiol neu wedi gwneud cais.

Nod y Gronfa Cadernid yw helpu economi, busnesau ac elusennau Cymru sydd wedi gweld cwmp sydyn yn eu hincwm oherwydd y coronafeirws ac mae llawer o sŵau wedi manteisio ar y pecyn cymorth hael hwn i'w helpu i ofalu am les eu hanifeiliaid a'u hiechyd ariannol.

Diolch i'r Gronfa Cadernid yng Nghymru, rydym wedi gallu rhoi arian argyfwng i Sŵau ac Acwaria heb orfod sefydlu cynllun arbennig ar gyfer y sector. Mae hyn yn ddefnydd mwy ymarferol o'r arian ac yn golygu ein bod wedi gallu rhoi mwy nag y byddem o dan gynllun penodol i'r sector a fyddai'n canolbwyntio'n unig ar les anifeiliaid heb ystyried y gorbenion a'r costau ychwanegol rydym yn gwybod y mae angen i sŵau ac acwaria dalu amdanynt er mwyn i'w busnes allu parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 56**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n werth esbonio bod £14 miliwn y Gronfa Sŵau yn Lloegr yn cynnwys dyraniad fformiwla Barnett i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gyda'r dyraniad i Gymru'n cael ei drefnu'n ganolog. Ar sail yr hyn a neilltuwyd i Lywodraeth Cymru a bwrw y byddai pob un o'r 30 sw drwyddedig yng Nghymru'n gwneud cais, mae'r arian sydd eisoes wedi'i neilltuo trwy'r Gronfa Cadernid i'r sŵau sydd wedi gwneud cais yn sylweddol uwch nag y byddai cynllun penodol i'r sector yng Nghymru wedi gallu ei roi.

Rydym fodd bynnag yn cadw golwg ar y cymorth sy'n cael ei gynnig er mwyn gallu ymateb i anghenion sŵau ac acwaria Cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**P-05-970 Ask the Senedd to reconsider their decision not to support Zoos & Aquariums with emergency funding, Correspondence – Petitioner to Committee, 01.07.20**

Good afternoon,

Thank you for the update, I look forward to watching the debate.

I would like to submit the following comments. We set up the petition there was still no idea on how long the lockdown would last nor the mechanism for relaxing the lockdown regulations and as such additional information has come to light. I am using the Welsh Mountain Zoo in Colwyn Bay as a case study as they are my geographical closest Zoo or Aquarium affected.

The lockdown struck at exactly the wrong time for the Welsh Mountain Zoo, they estimate a loss in revenue of £712,000 between the beginning of lockdown and the middle of July. This is not factoring in the good weather during this period that would likely have seen a higher number of visitors and therefore income. Whilst the Zoo is open all year round, the business is definitely seasonal and the income during the summer months covers the leaner winter months.

The Zoo have furloughed staff, but it is impossible to provide safe care for animals, some of which are dangerous, without maintaining a skeleton workforce of keepers. Heating and lighting has still been required. Fences, buildings and exhibits have required maintenance and of course animals have needed to be fed. This has left the Zoo with running costs of £120,000 per month. The huge loss of earnings, as well as the remaining high running costs show why the zoo is in such dire financial straights.

The Zoo has received £85,000 from the Economic Resilience Fund which is clearly dwarfed in scale by a single months running costs. A loan of £250,000 has been secured from the Development Bank of Wales; which is simply moving the problem down the road as loans need repaying. Of course the Zoos is grateful for this support however it doesn't solve their problem.

We know that zoos are scheduled for limited reopening. It is reasonable to expect there will need to be safe visitor management that allows for social distancing in the Zoo and this will limit the number of visitors the Zoo can admit and the money they can raise through admissions. The fiscal hardship will continue long after the Zoo can re-open.

Whilst this focusses on the plight of just one zoo the conclusion is stark. Without support this vital part of the tourist industry, a local employer, contributor to education, and conservation body faces the realistic prospect of closure. This would rip the heart out of the community in Colwyn Bay and effect businesses all along the North Wales coast. If you were to contact other zoos, wildlife collections and aquaria you would hear the same sad story. You cannot furlough fish and you cannot work from home as a keeper.

The Westminster government has recognised the importance of zoos, launching a £14 million Zoo Support Fund. I urge the Senedd to find the resources to cushion the impact of Covid-19 for Zoos and Aquaria with a similar support fund. Otherwise the damage done will hinder the recovery for so many sectors in Wales and mean hardship for many for years to come.

Diolch  
David Wilkins



## Eitem 2.3

**P-05-971 Dylid llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth COVID-19 er mwyn caniatáu i bobl deithio yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sean Murphy, ar ôl casglu cyfanswm o 15,192 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Ar 29 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan y rheoliadau COVID-19. Cafodd y rheolau eu llacio ond mae gofyniad i bobl aros yn lleol o hyd. Mae'r rheolau hyn yn atal teuluoedd sy'n byw yn bell o'i gilydd rhag cwrdd ac yn atal y rhan fwyaf o bobl rhag ymarfer corff ar lan y môr neu yng nghefn gwlad. Nid oes dim rheswm pam na all pobl gadw pellter cymdeithasol yn haws yn yr awyr agored. Mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio eisoes yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-y-newidiadau-i-reoliadaur-coronafeirws-o-1-mehefin#section-43071>

<https://llyw.cymru/rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-cymru-2020-fel-yu-diwygiwyd>

<https://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-overview-and-advice>

<https://www.gov.uk/coronavirus>

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# P-05-971 - Dylid llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth COVID-19 er mwyn caniatáu i bobl deithio yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Gorffennaf 2020  
Petitions Committee | 7 July 2020

Cyfeirnod: RS20/12937-3

## Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: P-05-971

**Teitl y ddeiseb:** Dylid llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth COVID-19 er mwyn caniatáu i bobl deithio yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Ar 29 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan y rheoliadau COVID-19. Cafodd y rheolau eu llacio ond mae gofyniad i bobl aros yn lleol o hyd. Mae'r rheolau hyn yn atal teuluoedd sy'n byw yn bell o'i gilydd rhag cwrdd ac yn atal y rhan fwyaf o bobl rhag ymarfer corff ar lan y môr neu yng nghefn gwlad. Nid oes dim rheswm pam na all pobl gadw pellter cymdeithasol yn haws yn yr awyr agored. Mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio eisoes yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

Nodyn – Lluniwyd y papur briffio hwn cyn 6 Gorffennaf. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi y gellir codi'r cyfyngiadau ar y dyddiad hwn fel yr amlinellir yn y papur briffio a ganlyn. Fel y cyfryw, efallai na fydd y cyfyngiadau mewn grym mwyach ar adeg cyfarfod y Pwyllgor.



## 1. Y cefndir

Yn sgil pandemig y Coronafeirws, gan ddefnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, gwnaeth Llywodraeth Cymru Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, (rheoliadau 2020), a ddaeth i rym ar 26 Mawrth 2020.

Mae rheoliadau 2020 wedi'u diwygio sawl gwaith ers hynny, ac maent yn gosod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r rheoliadau bob 21 diwrnod.

Daeth y diwygiadau diweddaraf i reoliadau 2020 i rym ar 22 Mehefin 2020.

I ddechrau, ym mis Mawrth 2020, roedd yn ofynnol i bobl yng Nghymru aros gartref, gyda'r rheoliadau yn caniatáu i bobl adael y cartref am nifer gyfyngedig o resymau yn unig.

Mae'r cyfyngiadau hyn wedi'u llacio ychydig ers hynny. Ar 29 Mai, pan adolygwyd y rheoliadau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r gofyniad i 'aros gartref' yn cael ei ddiwygio i 'aros yn lleol'.

Ar adeg llunio'r papur briffio hwn, mae'r gofyniad hwn yn dal i fod ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y gofyniad i aros yn lleol, sy'n nodi fel a ganlyn:

Nid yw'r gyfraith yn diffinio "lleol", a hynny yn fwriadol, gan y gall olygu gwahanol bethau mewn gwahanol amgylchiadau. Ond yn gyffredinol, rydym yn ystyried bod unrhyw beth o fewn tua p[h]um milltir i'ch cartref yn lleol ichi.

... ceir rhai gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn ddigon pwysig i fod yn eithriadau i'r gofyniad i aros yn lleol. Yn y rheoliadau, cyfeirir at y rhain fel "esgusodion rhesymol" dros adael yr ardal leol.

Mae'r rheoliadau hefyd yn dweud nad yw'r esgusodion rhesymol hyn ond ar gael i chi os nad yw'n "rhesymol ymarferol" i wneud y gweithgareddau yn eich ardal leol.

Er enghraifft, byddai pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael teithio ychydig ymhellach i gael cyflenwadau fel bwyd a meddyginiaeth os yw'r siopau agosaf ychydig ymhellach i ffwrdd.

Ar 19 Mehefin 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad yn nodi'r newidiadau a wnaed yn yr adolygiad diweddaraf o reoliadau 2020. Yn y datganiad hwn, cyhoeddodd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn [pwyslais wedi'i ychwanegu]:

...adolygu'r gofyniad i aros yn lleol ymhen pythefnos ar 6 Gorffennaf ...  
Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei seilio ar y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol a meddygol diweddaraf a natur y feirws yng Nghymru.

## Cyfyngiadau mewn rhannau eraill o'r DU

Er y dilynwyd dulliau gweithredu tebyg iawn ar draws pob rhan o'r DU ym mis Mawrth 2020 pan roddwyd cyfyngiadau ar waith, gyda threigl amser, mae gwahaniaethau wedi dod i'r amlwg. Ar adeg llunio'r papur briffio hwn, mae'r cyfyngiadau a ganlyn ar waith:

- Yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon nid oes terfynau ynghylch pa mor bell y caiff pobl deithio;
- Yn yr Alban, ni ddylai pobl deithio mwy nag oddeutu pum milltir ar gyfer hamdden. Mae'n dderbyniol teithio y tu allan i'r ardal leol i gwrdd ag aelodau o aelwyd arall mewn man awyr agored, ond gofynnir i bobl ddefnyddio'u crebwyll ynghylch pa mor bell i deithio. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi y bydd y rheol pum milltir yn cael ei dileu ar 3 Gorffennaf 2020.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd, ar 16 Mehefin 2020, mae'r Prif Weinidog yn nodi bod adolygiadau Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau:

... yn ystyried tystiolaeth eang ynglŷn â'r amgylchiadau penodol [yng Nghymru]. Un o ddibenion allweddol y gofyniad i aros yn lleol yw atal y feirws rhag ymledu rhwng cymunedau.

Yn y Senedd, mae'r dehongliad o'r terfyn pum milltir wedi'i drafod yn y Cyfarfod Llawn. Mae cwestiwn ysgrifenedig hefyd wedi'i gyflwyno yn gofyn i Lywodraeth

P-05-971 - Dylid llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth COVID-19 er mwyn caniatáu i bobl deithio yng Nghymru

Cymru gyhoeddi'r dystiolaeth wyddonol a ddefnyddiwyd i lywio'r rheol. Ar adeg llunio'r papur briffio hwn, nid yw'r ymateb wedi'i gyhoeddi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

[SeneddDeisebau@senedd.cymru](mailto:SeneddDeisebau@senedd.cymru)

16 Mehefin 2020

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-971 Dylid llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth COVID-19 er mwyn caniatáu i bobl deithio yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr o 2 Mehefin

Mae'r adolygiadau rheolaidd o'r mesurau cyfyngiadau symud yng Nghymru yn ystyried tystiolaeth eang ynglŷn â'r amgylchiadau penodol yma. Un o ddibenion allweddol y gofyniad i aros yn lleol yw atal y feirws rhag ymledu rhwng cymunedau. Bydd canlyniad yr adolygiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ar 19 Mehefin.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

**P-05-971 Relax travel restrictions imposed by Covid 19 legislation to allow travel within Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 28.06.20**

The First Minister states in his response of the 16th June 2020 that the periodic reviews take into account however he not published the evidence that he is relying on.

He states that "A key purpose of the requirement to stay local is to prevent the spread of the virus between communities." However, the virus was already widely distributed across Wales at the early stages of the pandemic.

Furthermore, there was always the ongoing potential for geographic viral spread through the food and goods distribution networks, with the potential for contamination in all retail premises. These inherent risks are potentially far higher than a person walking in the countryside although many footpaths, national parks and other spaces were closed down.

The risks in retail establishments of cross contamination between strangers is again far higher than that of family members meeting where most people would even in normal circumstances be mixing with small groups of people.

The outcome of the review on the 19th June provisionally allows travel outside local areas from the 6th July this is much later than the governments of Northern Ireland and England have permitted.

A more recent anomaly is that UK citizens including those resident in Wales can holiday in a number of European destinations from 6th July but cannot book holidays in Wales until at least a week later.

The pandemic now appears to be receding and regulations are being relaxed, in the event of a second wave or similar event occurring, the Welsh Government should give consideration to a more balanced and evidence based approach to restricting peoples movements

Sean Murphy

### **P-05-989 Cadw'r cyfyngiadau a osodwyd gan ddeddfwriaeth Covid 19, caniatáu teithio o fewn radiws o 5 milltir yn unig yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan ddeisebydd dienw, ar ôl casglu cyfanswm o 114 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Ar 29 Mai cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau yn y cyfyngiadau a osodwyd gan reoliadau Covid 19. Cafodd y rheolau eu llacio ond mae'n dal i fod yn ofynnol i bobl aros yn lleol ac o fewn radiws o 5 milltir. Diben y rheolau hyn yw cadw cymunedau a theuluoedd yn ddiogel. Y rheswm pam mae'r rheolau pellter cymdeithasol yma i aros yw bod gennym i gyd un ddyletswydd. Atal y lledaeniad. Mae'r cyfyngiadau eisoes wedi cael eu llacio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ond credaf y bydd hyn yn achosi i ail a thrydydd ton ddechrau yno.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Mae rhai pobl yn galw am ryddid llwyr i deithio yng Nghymru. Rwy'n cydymdeimlo â hwy a gwn y gall unigedd fod yn anodd ar adegau, ond mae wedi bod yr un fath i filiynau o bobl ledled y byd. Mae gennym i gyd un ddyletswydd. Mae angen inni gadw'r ffigurau i lawr ac atal y lledaeniad. Peidiwch ag ymlacio. Teithio lleol yn unig yng Nghymru.

Cadwch bobl Cymru, ein teuluoedd a'n cymunedau yn ddiogel.

Diolch

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru



## Eitem 2.5

**P-05-972 Dylid darparu o leiaf bedair awr y dydd o addysg fyw i bob disgybl tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Siobhan King, ar ôl casglu cyfanswm o 100 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Nid yw plant yng Nghymru wedi bod i'r ysgol ers 20 Mawrth a prin iawn yw'r addysg wyneb yn wyneb a ddarparwyd i ddisgyblion ysgolion gwladol. Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw am o leiaf bedair awr o addysg wyneb yn wyneb yn fyw ar-lein bob dydd.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

# Stopiwch yr isafbris am alcohol

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Gorffennaf 2020  
Petitions Committee | 7 July 2020

Cyfeirnod: RS20/12961-2

Rhif y ddeiseb: [P-05-966](#)

Teitl y ddeiseb: Stopiwch yr isafbris am alcohol

Geiriad y ddeiseb:

Stopiwch yr isafbris am alcohol. NID yw pobl Cymru wedi pleidleisio dros y gyfraith WIRION hon. Nid oes UNRHYW dystiolaeth yn unrhyw le yn y byd bod hyn yn gweithio. Y cyfan y bydd yn ei wneud yw cosbi'r rhai llai cefnog a phensiynwyr, ni fydd pobl sy'n ennill cyflog da fel aelodau'r Llywodraeth yn teimlo effaith y ddeddf a orfodir arnom. Nid yw'r treial a wnaed yn yr Alban wedi llwyddo i leihau'r maint o alcohol a yfir, os unrhyw beth, mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n troi at gyffuriau a chynnydd mawr mewn dwyn o siopau. Ydyn ni eisiau hyn i Gymru? Pryd fydd y Llywodraeth yn dysgu nad yw unrhyw ddull o wahardd yn gweithio? Ystyriwch hanes.



# 1. Cefndir

Pasiwyd Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) Llywodraeth Cymru gan y Cynulliad ym mis Mehefin 2018.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu/cyflenwi alcohol yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu am lai na'r pris hwnnw.

Mae Adran 1 o'r Ddeddf yn pennu'r fformiwla i gyfrifo'r isafbris gwerthu ar gyfer alcohol. Mae hyn yn seiliedig ar isafbris fesul uned o alcohol. Ni phennwyd yr isafbris uned yn y Ddeddf. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad ar isafbris uned arfaethedig o 50c rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2018.

Cymeradwywyd rheoliadau drafft yn pennu isafbris uned o 50c yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Tachwedd 2019. Crëwyd Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 wedi hynny ar 20 Tachwedd 2019, a daethant i rym ar 2 Mawrth 2020.

Nid yw'r ddeddfwriaeth wedi cynyddu pris pob diod alcoholig, dim ond y rhai a oedd yn cael eu gwerthu am bris sy'n llai na'r isafbris. Mae'n debyg y bydd yr effaith fwyaf ar alcohol a gaiff ei werthu mewn archfarchnadoedd a siopau all-drwydded, yn enwedig y cynnyrch sy'n gymharol rad ond sydd â chanran alcohol uchel, a phan fo mwy nag un yn cael eu gwerthu mewn pecyn neu fel rhan o hysbysebu cynnyrch am bris gostyngedig. Gan amlaf, ni fydd prisiau sefydliadau mewnfasnach (megis tafarndai a chlybiau nos) yn gweld unrhyw effaith gan y byddant yn gwerthu dros lefel yr isafbris uned.

## Nodau'r ddeddfwriaeth

Mae gosod isafbris yn fesur wedi'i dargedu, sy'n ceisio lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd gyda'r Bil, bydd y ddeddfwriaeth yn rhan o ddull strategol ehangach Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

Yn y pen draw, diben y Bil yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau'r defnydd o alcohol ymhlith pobl sy'n yfed mewn ffordd niweidiol a pheryglus. Yn benodol, mae'r Bil wedi'i dargedu at warchod iechyd pobl sy'n yfed mewn modd

niweidiol a pheryglus (gan gynnwys pobl ifanc), ac sy'n tueddu i yfed mwy o ddiodydd rhad a rhai sy'n cynnwys lefel uchel o alcohol.

---

## Model Polisi Alcohol Sheffield

Mae datblygu polisi alcohol yn y DU wedi cael ei lywio gan waith modelu a wnaed gan Brifysgol Sheffield. Yn 2009, datblygodd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield Fodel Polisi Alcohol Sheffield i asesu effaith bosibl polisiâu alcohol, gan gynnwys gwahanol lefelau o isafbris uned, ar boblogaeth Lloegr. Wedi hynny, addaswyd y model ar gyfer ardaloedd eraill, gan gynnwys yr Alban a Chanada.

Yn 2014 comisiynwyd SARG gan Lywodraeth Cymru i addasu'r model ar gyfer Cymru. Cyhoeddwyd gwaith modelu diwygiedig ym mis Chwefror 2018. Roedd yr adroddiad yn dangos:

- Y byddai isafbris uned rhwng 35c a 70c yn effeithiol o ran lleihau lefel yr alcohol a ddefnyddir gan yfwyr peryglus ac, yn arbennig, yfwyr niweidiol. Byddai'r gostyngiadau hyn o ran defnydd yn arwain at ostyngiadau o ran derbyniadau ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae isafbris uned uwch yn arwain at ostyngiadau uwch o ran defnydd a niwed.
- Mai dim ond effaith fach y byddai yfwyr cymedrol yn ei gweld ar eu defnydd o alcohol a'u gwariant yn sgil cyflwyno isafbris uned. Mae hyn oherwydd eu bod yn tueddu i brynu alcohol y byddai ei bris yn codi dim neu braidd ddim o dan y polisi. Mae isafbris uned uwch yn cael effaith fwy ar faint mae yfwyr cymedrol yn ei yfed.
- Y byddai'r isafbris uned yn cael yr effaith fwyaf ar yr yfwyr niweidiol mwyaf difreintiedig. Byddai yfwyr difreintiedig sy'n yfed lefel gymedrol yn cael eu heffeithio'n fwy nag yfwyr cymedrol eraill, ond mae'r effaith gyffredinol ar eu defnydd o alcohol a'u gwariant arno yn parhau i fod yn fach.

## Craffu ar y ddeddfwriaeth

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi'r ddeddfwriaeth fel mesur iechyd cyhoeddus. Daeth y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiad i'r isafbris o'r diwydiant alcohol (ond nid yw hyn yn wir drwyddi draw – mae safbwynt yr archfarchnadoedd mawr, er enghraifft, yn amrywio).

Er bod y polisi wedi'i gefnogi'n eang, lleisiwyd nifer o bryderon wrth graffu ar y Bil. Roedd yr rhain yn cynnwys:

- Diffyg profiadau yn y byd go iawn o bennu isafbris, a chwestiynau ynglŷn â pha mor ddibynadwy y gall model mathemategol fod o ran rhagweld effaith y polisi ar yfed alcohol a'r niwed cysylltiedig.
- A fydd pennu isafbris yn cosbi yfwyr cymedrol yn annheg.
- P'un a fydd effaith anghymesur ar grwpiau incwm isel.
- Sut y bydd y polisi'n effeithio ar yfwyr sy'n ddibynnol ar alcohol ac yn agored i niwed, gan gynnwys a oes risg y byddant yn defnyddio alcohol drwy ddulliau eraill ar wahân i yfed, neu'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, os bydd pris alcohol yn cynyddu.
- Y potensial am gynnydd mewn masnach drawsffiniol, a fyddai'n rhoi busnesau Cymru dan anfantais.
- Sut y gallai'r diwydiant alcohol ymateb i gynnydd mawr mewn elw o ganlyniad i'r isafbris.

Trafodir y materion hyn yn eithaf manwl yn [adroddiad cam 1](#) y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Cefnogodd y Pwyllgor egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth, ond rhybuddiodd fod angen trafod y Bil ei hun a pholisïau ehangach ymhellach. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion gyda'r nod o gryfhau'r ddeddfwriaeth a'r broses o'i rhoi ar waith, ac osgoi canlyniadau anfwriadol posibl, yn enwedig o ran yfwyr dibynnol. Nododd hefyd fod angen rhagor o gamau gweithredu 'i sicrhau bod effeithiau isafbris uned, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol, yn cael eu monitro a'u deall'.

Pwysleisiodd adroddiad y Pwyllgor na fydd yr isafbris yn effeithiol ar ei ben ei hun, a bod angen ystod o fesurau i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol.

## Gwerthuso a darpariaeth machlud

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad ynglŷn â gweithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys cymal machlud. Bydd y drefn isafbris a sefydlir gan y ddeddfwriaeth yn peidio â chael effaith ar ôl chwe blynedd, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n darparu fel arall.

## Yr Alban

Cyflwynwyd isafbris uned o 50c ar gyfer alcohol yn yr Alban ym mis Mai 2018. Mae lechyd Cyhoeddus yr Alban yn arwain y gwerthusiad o'r isafbris uned yn yr Alban trwy ei raglen waith Monitro a Gwerthuso Strategaeth Alcohol yr Alban (MESAS). Cyhoeddwyd rhai canfyddiadau cynnar – dadansoddiad o werthiannau alcohol allfasnach dros y flwyddyn lawn ar ôl cyflwyno'r isafbris uned (cyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Ionawr 2020) yn dangos bod gwerthiant alcohol pur fesul oedolyn yn yr Alban wedi gostwng 3.6%.

Mae canlyniadau pellach, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, hefyd yn awgrymu bod cyflwyno isafbris uned yn yr Alban yn gysylltiedig â gostyngiad yng nghyfanswm yr alcohol pur a werthwyd drwy sianeli allfasnach fesul oedolyn, a thynnwyd sylw at y ffaith bod gwerthiannau alcohol fesul oedolyn yng Nghymru a Lloegr (lle nad oedd y ddeddfwriaeth yn weithredol) wedi cynyddu dros yr un cyfnod.

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r gyfres amser ag ymyriad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'r amcangyfrif gorau o'r gostyngiad net mewn gwerthiannau allfasnach fesul oedolyn yn yr Alban o ganlyniad i'r isafbris uned rhwng 4 a 5%.

Cyhoeddir adroddiad terfynol yn ddiweddarach yn 2023.

## 2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Deisebau, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud bod y ddeddfwriaeth yn 'rhan hanfodol o'n gwaith o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ledled Cymru'. Mae ei lythyr yn disgrifio 'tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol gref' y bydd cyflwyno isafbris uned yn lleihau lefel yr alcohol a ddefnyddir ac yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd.

Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod y trefniadau isafbris yn destun rhaglen werthuso. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith polisi isafbris yr Alban. Mae'n nodi ei bod yn 'rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau ar hyn o bryd'.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref KW/01862/20  
Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

09 Mehefin 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mehefin ynghylch Deiseb P-05-972 Dylid darparu o leiaf bedair awr y dydd o addysg fyw i bob disgybl tra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19.

Rydym yn ymwybodol bod gan rai ysgolion y gallu i ffrydio gwersi byw ar-lein yn ddiogel i ddysgwyr, ac yn unol â hynny rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector Addysg i gytuno ar ganllawiau i adlewyrchu hyn, yn ddarostyngedig i amodau penodol. Maent ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-gefnogi-dysgu-o-bell/>

Diogelu plant yw'r flaenoriaeth i ni o hyd, ond mae gan ysgolion yr opsiwn o ffrydio gwersi byw ar-lein os yn briodol. Wrth wneud hynny, dylai ysgolion gadw'n gaeth at eu polisïau diogelu a chyfeirio at ddogfen 'Ffrydio byw – arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg' Llywodraeth Cymru, sydd ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-arferion-ac-egwyddorion-diogelu-i-ymarferwyr-addysg/> ynghyd ag unrhyw ganllawiau perthnasol gan awdurdodau lleol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi faint o wersi fydd yn cael eu ffrydio yn fyw gan mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am ddefnyddio gwersi o'r fath yn ôl eu gallu i wneud hynny a threfniadau lleol ar gyfer rhyngweithio gyda'u dysgwyr.

Yr ysgolion unigol, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol, sy'n parhau i fod yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer ffrydio gwersi byw, felly bydd angen iddynt gadarnhau'r sefyllfa gyda'u Hawdurdod Lleol.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



## **P-05-972 To provide a minimum of 4 hours a day of live teaching during COVID closures for all school children – Petitioner to Committee, 23.06.20**

Please see my responses in red with regards to the letter from the Minister of Education -

We are aware that some schools have the capability to deliver live streamed lessons safely to their learners and as such we have worked with stakeholders across the Education sector to agree guidance to reflect this, subject to certain conditions. This is available at <https://hwb.gov.wales/distance-learning/developing-approaches-to-support-distancelearning/> - The lack of consistency across all schools in Wales to provide an equal delivery of continued lessons is against equality policy . "some schools " is not all schools and creates a picture of a post code lottery of educational provision both in terms of equality and the right to education as outlined in the human rights act .

The safeguarding of children remains our priority but schools have the option to use live streaming of lessons if it is considered appropriate. In doing so schools should closely adhere to their safeguarding policies and refer to the Welsh Government's 'Live-streaming safeguarding principles and practice for education practitioners' guidance document' at <https://hwb.gov.wales/zones/online-safety/live-streaming-safeguarding-principles-andpractice-for-education-practitioners/> and any relevant local authority guidance. There is inconsistent messaging and adoption of this guidance from LA's . Private schools are harnessing and have harnessed live lessons since the early pandemic and will do so should the need for "blended learning " continue into the new academic year . We see the lack of this decree being centrally agreed a matter for equality ( please send the Welsh government report into equality in education for my information , again creating a "post code " lottery for those unable to access private schooling and is also a contravention of human rights for the children of Wales . WG simply cannot "pass the buck " to the LA's in a matter of such great importance especially when most LA@s are struggling financially with budget deficits .

Welsh Government do not prescribe the amount of live streaming of lessons that will be delivered as individual schools have the responsibility for the use of live streaming of lessons according to their capability to do so and local arrangements for interaction with their learners. Any arrangements for the use of live streaming of lessons will remain the responsibility of individual schools in conjunction with their Local Authorities and as such they will need to confirm the agreed position with their Local Authority. This answer from the minister is wholly unacceptable and to push the provision of live lessons out to the LA is a case for lack of equality of education provision for Welsh school children . Welsh government need to decide policy which ensures an equal provision of standard of education for children who are in state provision in line with private . To not do so is both a human rights issue and abuse of equal rights for children .

It is unacceptable for WG to push this matter onto the already struggling LA's to creat a post code lottery of pot luck of what our childrens education looks like as we move through 2020 .

I await your response

### **P-05-973 Ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt cyn belled â'u bod yn gosod mesurau cadw pellter cymdeithasol llym**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Siobhan King, ar ôl casglu cyfanswm o 118 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'r cyfyngiadau symud bellach wedi bod arnom ers dau fis. Mae'r cyfnod hwn wedi bod hyd yn oed yn hwy i'r rhai a ddewisodd hunan-ynysu yn gynnar. Gydag agor canolfannau garddio yn ddiweddar, dylem nawr fod yn trafod ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt, cyn belled â bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cymryd o ddifrif.

#### **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Mae ymddangosiad wastad wedi bod yn bwysig iawn, ond mae'n bwysicach fyth yn yr oes sydd ohoni. Nid yw pobl yn teimlo'n dda pan nad ydyn nhw'n edrych yn dda, a chan fod pawb yn gorfod aros i mewn, y peth lleiaf i ofyn amdano yw ein bod yn teimlo'n dda amdanom ni ein hunain. Mae materion iechyd meddwl wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf ac un rheswm pam yw'r angen cynyddol i edrych yn dda er mwyn teimlo'n dda, a chyda'r cyfyngiadau symud presennol mae materion iechyd meddwl yn sicr o fod yn fwy cyffredin.

Dylai'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y lleoliadau hyn gynnwys apwyntiad yn unig, a dim ond caniatáu nifer gyfyngedig o staff bob y dydd. Dylai fod nifer gyfyngedig o bobl i mewn ar unrhyw adeg, ac ni ddylid caniatáu ymgynnull na chiwio y tu allan. Dylai'r holl offer a chadeiriau gael eu glanhau'n drylwyr rhwng pob cwsmer, dylid gwisgo menyg a masgiau, a dylid cadw cadeiriau ddwy fetr oddi wrth ei gilydd. Gellid rhoi unrhyw fesurau eraill ar waith i sicrhau diogelwch, ond mae'n rhaid rhoi stop ar y pennau blêr yma.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Casnewydd

- Dwyrain De Cymru

# P-05-973 Ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt cyn belled â'u bod yn gosod mesurau cadw pellter cymdeithasol llym.

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Gorffennaf 2020  
Petitions Committee | 7 July 2020

Cyfeirnod: RS20/12937-5

**Rhify Ddeiseb:** P-05-973

**Teitly ddeiseb:** Ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt cyn belled â'u bod yn gosod mesurau cadw pellter cymdeithasol llym.

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r cyfyngiadau symud bellach wedi bod arnom ers dau fis. Mae'r cyfnod hwn wedi bod hyd yn oed yn hwy i'r rhai a ddewisodd hunan-ynysu yn gynnar. Gydag agor canolfannau garddio yn ddiweddar, dylem nawr fod yn trafod ailagor siopau barbwyr a siopau trin gwallt, cyn belled â bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cymryd o ddifrif. Mae ymddangosiad wastad wedi bod yn bwysig iawn, ond mae'n bwysicach fyth yn yr oes sydd ohoni. Nid yw pobl yn teimlo'n dda pan nad ydyn nhw'n edrych yn dda, a chan fod pawb yn gorfod aros i mewn, y peth lleiaf i ofyn amdano yw ein bod yn teimlo'n dda amdanom ni ein hunain. Mae materion iechyd meddwl wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf ac un rheswm pam yw'r angen cynyddol i edrych yn dda er mwyn teimlo'n dda, a chyda'r cyfyngiadau symud presennol mae materion iechyd meddwl yn sicr o fod yn fwy cyffredin.

Dylai'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y lleoliadau hyn gynnwys apwyntiad yn unig, a dim ond caniatáu nifer gyfyngedig o staff bob y dydd. Dylai fod nifer gyfyngedig o bobl i mewn ar unrhyw adeg, ac ni ddylid caniatáu ymgynnull na chiwio y tu allan. Dylai'r holl offer a chadeiriau gael eu glanhau'n drylwyr rhwng pob cwsmer, dylid gwisgo menyg a masgiau, a dylid



cadw cadeiriau ddwy fetr oddi wrth ei gilydd. Gellid rhoi unrhyw fesurau eraill ar waith i sicrhau diogelwch, ond mae'n rhaid rhoi stop ar y pennau blêr yma.

## 1. Cefndir

Bu'n ofynnol i siopau barbwyr a thrinwyr gwallt fod ar gau yng Nghymru ers 23 Mawrth 2020, o dan *Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020*, fel y'i diwygiwyd (y rheoliadau). Yr **unig bwrpas** y caniateir iddynt ailagor ar ei gyfer, yw os yw Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn iddynt wneud hynny at ddiben cymdeithasol. Nid yw hynny'n golygu y gall busnesau unigol ailagor ar gyfer masnachu.

Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, gwnaeth y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol **gysylltu â swyddogion ar draws Llywodraethau'r DU** i ofyn am ychwanegu pob salon a phob siop barbwyr ar unwaith, at y rhestr o fusnesau y mae'n rhaid iddynt gau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i dywys Cymru allan o bandemig y coronafeirws yn **Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod**. O ran gwasanaethau gofal personol fel barbwyr a thrinwyr gwallt, yn ôl y ddogfen hon, **pan fydd Cymru wrth gam Ambr diddymu'r mesurau cyfyngiadau symud, bydd Llywodraeth Cymru yn "Treialu rhai gwasanaethau personol drwy apwyntiad (e.e. siopau trin gwallt)."**

## 2. Y sefyllfa ddiweddaraf yng Nghymru

Yn ei hadolygiad nesaf ar 9 Gorffennaf, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a fydd nifer o fathau o fusnesau – gan gynnwys barbwyr a thrinwyr gwallt – yn gallu ailagor.

Yn ei **gyngor i Lywodraeth Cymru** cyn yr adolygiad o'r rheoliadau ar 19 Mehefin, dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol:

Wrth sicrhau mesurau parhaus i osgoi niwed uniongyrchol yn sgil haint COVID-19, dylid mynd ati mewn ffordd bwylllog a doeth i lacio'r

Teitl:

---

cyfyngiadau er mwyn lleihau effeithiau economaidd-gymdeithasol hirdymor y pandemig.

[Yn ôl Datganiad Llywodraeth Cymru i'r wasg](#) ar 19 Mehefin, yn cyhoeddi'r newidiadau yn dilyn yr adolygiad diweddaraf:

Adeg yr adolygiad nesaf, ar 9 Gorffennaf, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried amryw o opsiynau penodol ar gyfer agor:

- Llety gwyliau hunangynhwysol
- Gwasanaethau gofal personol, fel gwasanaethau trin gwallt a harddwch, drwy apwyntiad.

Mae [datganiad ysgrifenedig](#) Prif Weinidog Cymru ar yr un dyddiad yn nodi:

Gofynnaf i rai busnesau ddechrau cymryd camau i baratoi nawr, rhag ofn y bydd yr amodau yn addas i wneud newidiadau pellach i'r rheoliadau.

Dyma'r meysydd penodol:

- Paratodau ar gyfer ailagor yr economi ymwelwyr, gan gynnwys llety heb gyfleusterau a rennir pan fo cadw pellter cymdeithasol yn bosibl.
- Paratodau ar gyfer aildechrau gwasanaethau gofal personol drwy apwyntiad, gan gynnwys trin gwallt.

At hynny, mae [Dogfen Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru ar reoliadau Coronafeirws](#) yn amlygu'r ffaith ei bod yn ystyried a fydd trinwyr gwallt sy'n mynd i dai pobl yn gallu ailagor ar yr un pryd â thrinwyr gwallt eraill. Mae'n dweud:

Rydym yn dal i ystyried hyn. Dros y tair wythnos nesaf cyn ein hadolygiad nesaf o'r rheoliadau ar 9 Gorffennaf, rydym yn gweithio i benderfynu sut y gall gweithwyr trin gwallt ddechrau cynnig gwasanaethau yn ddiogel – mae angen inni edrych yn ofalus ar weithwyr trin gwallt sy'n mynd i dai pobl fel rhan o hyn.

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, gwnaeth y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol [ysgrifennu at](#) y Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i ofyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer y sector gwallt a harddwch, i gynorthwyo ei haelodau i baratoi ar gyfer ailagor.

---

Mae llythyr Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Pwyllgor ynghylch y ddeiseb yn nodi fel a ganlyn:

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr amgylchiadau aruthrol o anodd ac ansicr y mae busnesau ac unigolion yn eu profi ar hyn o bryd.

Rydym wedi ymroi'n llwyr i roi'r gefnogaeth a'r tawelwch meddwl sydd eu hangen ar y gymuned fusnes...

Byddwn am weld pethau'n ailddechrau os bydd yr amodau'n caniatáu. Byddwn yn dal i gydweithio'n glos â'r sector cyhoeddus, yr undebau llafur, busnesau, y trydydd sector ac eraill yn hyn o beth.

### 3. Y sefyllfa ledled y DU

Ar 18 Mehefin, gwnaeth Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon **gyhoeddi y gall siopau barbwyr a siopau trinwyr gwallt ailagor, yn arfaethedig, yng Ngogledd Iwerddon o 6 Gorffennaf**. Gwnaeth Gweinidog yr Economi **ddweud** y bydd yr ailagor yn amodol ar ynysu'r Coronafeirws.

Gwnaeth Llywodraeth y DU **gyhoeddi ar 23 Mehefin y bydd siopau barbwyr a siopau trinwyr gwallt yn Lloegr yn gallu agor o 4 Gorffennaf ymlaen**. Mae hi wedi cyhoeddi **canllawiau ar gyfer gweithio'n ddiogel wrth ddarparu gwasanaethau sy'n gofyn am gysylltiad agos ag eraill**, gan gynnwys gwasanaethau barbwyr a thrinwyr gwallt. Mae'r rhain yn tynnu sylw at y ffaith y dylai gweithwyr sy'n gorfod dod i gysylltiad agos ag eraill gymryd gofal ychwanegol, fel gwisgo fisor sy'n gorchuddio'r wyneb, yn ogystal â chadw pellter cymdeithasol lle bo hynny'n bosibl, a golchi dwylo'n rheolaidd.

Ar 24 Mehefin, gwnaeth Llywodraeth yr Alban **ddweud y gallai siopau barbwyr a thrinwyr gwallt ailagor, yn arfaethedig, yn yr Alban ar 15 Gorffennaf, gyda mwy o fesurau hylendid**.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Teitl:

---





Eich cyf/Your ref P-05-973  
Ein cyf/Our ref KS/02969/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Ty Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
Government.Committee.Business@gov.wales

17 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch effaith pandemig y coronafeirws ar siopau barbwr a thrin gwallt.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr amgylchiadau aruthrol o anodd ac ansicr y mae busnesau ac unigolion yn eu profi ar hyn o bryd. Rydym wedi ymroi'n llwyr i roi'r gefnogaeth a'r tawelwch meddwl sydd eu hangen ar y gymuned fusnes.

Rydym yng Nghymru wedi creu'r pecyn cymorth mwyaf hael i fusnesau yn y DU – gwerth cyfanswm o £1.7 biliwn – ac rydym wedi lansio gwiriwr cymhwysedd newydd ar gyfer y cam nesa' o gymorth gan y Gronfa Cadernid Economaidd.

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy>

Caiff penderfyniad ei wneud ynghylch adolygu rheolau'r cyfnod clo yn yr arolwg nesaf ar 18 Mehefin a bydd yn dibynnu ar y dystiolaeth wyddonol a meddygol ddiweddaraf a chyfradd atgenhedlu'r feirws (y gyfradd R) yng Nghymru.

Byddwn am weld pethau'n ailddechrau os bydd yr amodau'n caniatáu. Byddwn yn dal i gydweithio'n glos â'r sector cyhoeddus, yr undebau llafur, busnesau, y trydydd sector ac eraill yn hyn o beth.

Yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi [cyngor ac adnoddau eraill ar gyfer busnesau a chyflogwyr](#).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe welwch hefyd inni gyhoeddi canllawiau manwl i helpu'r sector gweithgynhyrchu i ailddechrau'n ddiogel a chaiff canllawiau ar gyfer sectorau allweddol eraill eu cyhoeddi dros yr wythnosau i ddod.

Mae'r cyfyngiadau'n hanfodol i arafu lledaeniad y coronafeirws, diogelu'r GIG ac achub bywydau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

**Ken Skates AS/MS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales

**P-05-965 Annog y Llywodraeth i gyflwyno ward ar wahân, heblaw'r ward famolaeth, ar gyfer teuluoedd sy'n colli plentyn drwy gamesgoriad**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Peter Leigh-Robinson, ar ôl casglu cyfanswm o 52 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Ar ôl gweld beth roddodd y GIG fi a fy ngwraig drwyddo pan oedd hi'n colli plentyn drwy gamesgoriad: cael ein hanfon i gael sgan gyda darpar famau a chael gwybod, 'Rydych chi'n cael camesgoriad, ewch adref', a dyna ni. Roedd yn rhaid i ni ddod yn ôl ychydig ddyddiau wedyn ac eistedd mewn ystafell gyda phobl a oedd yn dod allan â'u lluniau o'r sgan. Doedd hynny ddim yn deg. Mae angen ward ar wahan.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Pan wnaethom ni ofyn a oedd rhywle arall y gallem ni aros cawsom wybod nad oedd unrhyw le. Cafodd hyn effaith niweidiol enfawr ar ein hiechyd meddwl. Sut oedden nhw'n gwybod ein bod ni'n ddigon cryf i adael yr ysbyty? Doedden nhw ddim yn gwybod. Mae angen i hynny newid.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# P-05-965 Darparu ward ysbyty ar gyfer teuluoedd sy'n mynd drwy gamesgoriad

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Gorffennaf 2020  
Petitions Committee | 7 July 2020

Cyfeirnod: RS20/12961

## Cyflwyniad

**Rhify ddeiseb:** [P-05-965](#)

**Teitl y ddeiseb:** Annogy Llywodraeth i gyflwyno ward ar wahân, heblaw'r ward famolaeth, ar gyfer teuluoedd sy'n colli plentyn drwy gamesgoriad

**Geiriad y ddeiseb:** Ar ôl gweld beth roddodd y GIG fi a fy ngwraig drwyddo pan oedd hi'n colli plentyn drwy gamesgoriad: cael ein hanfon i gael sgan gyda darpar famau a chael gwybod, 'Rydych chi'n cael camesgoriad, ewch adref', a dyna ni. Roedd yn rhaid i ni ddod yn ôl ychydig ddyddiau wedyn ac eistedd mewn ystafell gyda phobl a oedd yn dod allan â'u lluniau o'r sgan. Doedd hynny ddim yn deg. Mae angen ward ar wahân.



## Y cefndir

Diffinir comesgoriad fel beichiogrwydd sy'n dod i ben yn ystod y 23 wythnos gyntaf. Prif arwydd comesgoriad yw gwaedu drwy'r wain, ac mae'n bosibl y bydd wedyn gyfangau a phoen yn rhan isaf yr abdomen. Mae mwyafrif y comesgoriadau yn digwydd yn ystod y 12 wythnos gyntaf, a elwir yn feichiogrwydd cynnar.

Nid oes dim ystadegau a gaiff eu cyhoeddi fel mater o drefn ar gyfer comesgoriadau yng Nghymru na'r DU gyfan. Mae Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) yn amcangyfrif bod colli beichiogrwydd cynnar yn cyfrif am dros 50,000 o dderbyniadau i ysbyty yn y DU bob blwyddyn. Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan Tommys, sef elusen sy'n ariannu ymchwil i achosion comesgoriad, marw-enedigaethau a genedigaethau cynamserol, yn dangos:

- Amcangyfrifir bod 1 o bob 4 beichiogrwydd yn terfynu mewn comesgoriad;
- Mae tua 11 o bob 1,000 beichiogrwydd yn ectopig;
- Mae tua 1 o bob 100 o fenywod yn y DU yn profi comesgoriadau rheolaidd (3 neu fwy yn olynol);
- Mae'r risg o gamesgoriad yn lleihau'n fawr yn yr ail gyfnod o dri mis. Caiff oddeutu 1-2 o bob 100 o fenywod gamesgoriad hwyr yn yr ail dymor hwn.

## Diagnosis, profi a gofal

Fel y dywed y Gymdeithas Comesgoriad, 'Rydyn ni'n gwybod y gall fod yn brofiad anodd a thrallodus iawn i lawer o fenywod a'u partneriaid, ac yn aml yn un eithaf unig hefyd'.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn darparu canllawiau manwl ar gyfer rhoi diagnosis o gamesgoriad a beichiogrwydd ectopig a thrin yr achosion ar y dechrau yng Nghanllawiau NG126 NICE (2019), ac mae Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) yn ei gefnogi. Mae'r NG126 yn nodi nifer o argymhellion, gan gynnwys:

Healthcare professionals providing care for women with early pregnancy complications in any setting should be aware that early pregnancy complications can cause significant distress for some women and their partners. Healthcare professionals providing care for these women should be given training in how to communicate sensitively and breaking bad news. (para.1.1.2)

Regional services should be organised so that an early pregnancy assessment service (EPAS) is available 7 days a week for women with early pregnancy complications, where scanning can be carried out and decisions about management made. (para.1.2.1)

Ensure that a system is in place to enable women referred to their local EPAS to attend within 24 hours if the clinical situation warrants this. If the service is not available, and the clinical symptoms warrant further assessment, refer women to the nearest accessible facility that offers specialist clinical assessment and ultrasound scanning (such as a gynaecology ward or A&E service with access to specialist gynaecology support). (para.1.2.4)

Mae NICE wedi cyhoeddi gwybodaeth am Senario o ran Rheoli pan fydd amheuaeth o gamesgoriad yn y tri mis cyntaf, sy'n nodi'r arwyddion clinigol ar gyfer eu cyfeirio ymlaen at wasanaeth asesu beichiogrwydd cynnar (EPAS), gwasanaeth gynaecoleg y tu allan i oriau neu eu derbyn i'r ysbyty ar unwaith.

Mae'r Coleg Brenhinol hefyd wedi cyhoeddi'r ddogfen Darparu gofal o ansawdd i fenywod: Fframwaith ar gyfer safonau gwasanaeth mamolaeth (Tachwedd 2016), sy'n argymhell:

There should be at least **one dedicated bereavement room or suite**, away from celebrating families and the sounds of live babies, where a woman whose baby has died can labour and/or be cared for afterwards.(p.65)

Yn ôl GIG 111 Cymru, Os bydd rhywun yn gweld eu meddyg teulu neu fydwraig oherwydd gwaedu drwy'r wain neu symptomau eraill comesgoriad, gellir eu cyfeirio at y gwasanaeth asesu beichiogrwydd cynnar (EPAS) mewn ysbyty i gael profion. Os ydyn nhw'n fwy na 18 wythnos yn feichiog, fel rheol cânt eu hatgyfeirio i uned famolaeth ysbyty. Os ydyn nhw'n llai na 6 wythnos yn feichiog, efallai na fyddan nhw'n cael eu cyfeirio am brofion ar unwaith, gan ei bod hi'n anodd iawn cadarnhau comesgoriad mor gynnar â hyn.

Gall yr ysbyty gynnal profion i gadarnhau a ydyn nhw'n cael comesgoriad. Y prawf cyntaf a ddefnyddir fel arfer yw sgan uwchsain i wirio datblygiad eu babi ac i chwilio am guriad calon. Gellir cynnig profion gwaed hefyd i fesur hormonau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Fel arfer mae angen 2 brawf gwaed, 48 awr ar wahân i weld a yw eu lefelau hormonau yn cynyddu neu'n gostwng. Weithiau ni ellir cadarnhau comesgoriad ar unwaith gan ddefnyddio uwchsain neu brofion gwaed. Os yw hyn yn wir, gellir cynghori'r fenyw i gael y profion eto mewn 1 neu 2 wythnos.

## Adroddiadau ar wasanaethau camesgoriad yng Nghymru

Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd y mudiad Fair Treatment for the Women of Wales ddogfen [Making the case for better miscarriage care in Wales](#). Roedd yr adroddiad hwn yn nodi mai prif fyrdwn y cwynion gan lawer o'r menywod sy'n profi camesgoriad yw eu bod wedi cael eu sgan neu driniaeth ochr yn ochr â menywod beichiog sy'n bresennol ar gyfer eu sganiau 12 wythnos ac 20 wythnos. Roedd pryder hefyd ynglŷn â sut y cafodd y newyddion am eu camesgoriad ei gyfleu iddynt, a'r diffyg preifatrwydd a gawsant yn ystod eu hymgyngoriadau.

Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion, gan gynnwys:

- Bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith i sicrhau bod gwasanaeth asesu beichiogrwydd cynnar ar gael 7 diwrnod yr wythnos;
- Dylid adolygu Gwasanaethau Asesu Beichiogrwydd Cynnar i sicrhau bod y menywod sy'n dod i'r unedau hyn yn cael gofal mewn ffordd sy'n gyson â chanllawiau NICE ac sy'n briodol ar gyfer y digwyddiad bywyd trallodus y maent yn ei brofi;
- Dylid sefydlu system i sicrhau bod menywod yn cael rhagor o gefnogaeth seicolegol ac emosiynol yn ystod ac ar ôl camesgoriad.

Cafwyd [dadl yn y Senedd yn dilyn yr adroddiad](#) ym mis Hydref 2018, pan wnaed cynnig yn galw am ofal gwell mewn profedigaeth i fenywod y mae eu beichiogrwydd yn dod i ben, ac sy'n colli babanod.

Ar 24 Mai 2019 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [ddatganiad ysgrifenedig](#) a oedd yn nodi bod swyddogion yn ystyried argymhellion yr adroddiad, a'u bod mewn trafodaethau â grwpiau rhanddeiliaid ynghylch sut i wella'r ffordd y mae menywod sy'n dioddef camesgoriad yn cael gofal ac yn cael eu cefnogi gan fyrddau iechyd lleol (BILL) yng Nghymru. Roedd pryderon [wedi'u nodi ym mis Hydref 2019](#), fodd bynnag, mai "ychydig iawn o gamau" a oedd wedi'u cymryd yn dilyn yr adroddiad, gan gynnwys ynghylch preifatrwydd, cefnogaeth, a darparu gwasanaethau asesu beichiogrwydd cynnar.

Fel y disgrifir mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ar 22 Gorffennaf 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gweithgor Cymorth mewn Profedigaeth, a oedd yn cynnwys elusennau fel 2 Wish Upon A Star, Sands a Bliss. Cynlluniwyd y grŵp i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a helpu i ddarparu gwell trefniadau mewn profedigaeth a sicrhau bod gan fyrddau iechyd drefniadau addas i helpu a chefnogi teuluoedd sy'n colli baban, plentyn neu berson ifanc.

Nododd y datganiad hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth, drwy'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes - Prifysgol Caerdydd i adnabod a chasglu gwybodaeth am y gwasanaethau profedigaeth strwythuredig sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc. Cyhoeddwyd **adroddiad interim** ym mis Mai 2019 ac yna **adroddiad terfynol** ym mis Rhagfyr 2019. Roedd yr astudiaeth yn mapio'r gefnogaeth bresennol, o'r cyfeirio, ymlaen at gwnsela arbenigol, a nododd feysydd lle mae angen rhagor o adnoddau a datblygu gwasanaethau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth yng Nghymru. Mae'r adroddiad, fodd bynnag, yn ystyried amrywiaeth eang o wasanaethau profedigaeth, ac nid yw'n nodi dim cynigion penodol ar gyfer darparu cymorth mewn achosion o gamesgoriad.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Mae ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod effaith sylweddol comesgoriad sy'n digwydd ar unrhyw gam o'r beichiogrwydd. Mae hefyd yn tynnu sylw y gall comesgoriad ddigwydd mewn nifer o wahanol ffyrdd a lleoliadau:

- Bod **comesgoriad cynnar** yn aml yn digwydd naill ai gartref neu o fewn gwasanaethau gynaeoleg. Byddai cefnogaeth yn cael ei darparu gan y gwasanaethau gofal cychwynnol a gellid darparu atgyfeiriadau at sefydliadau cymorth perthnasol fel y **Gymdeithas Comesgoriad**. Byddai allgymorth hefyd gan y gwasanaethau bydwreigiaeth cymunedol os yw'r fenyw eisoes o dan eu gofal;
- Os digwydd **comesgoriad hwyr**, byddai gofal yn cael ei ddarparu gan wasanaethau mamolaeth lleol '**mewn lleoliad priodol yn ystod beichiogrwydd diweddarach**'. Bu byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn gweithio i sicrhau "bod ystafelloedd profedigaeth wedi'u sefydlu i roi preifatrwydd, a bod cymorth profedigaeth dilynol ar gael sy'n cefnogi'r rhieni a'r teulu ehangach hefyd".

Fodd bynnag, mae'r ymateb hefyd yn nodi:

[...] Yn aml, ni ellir tybio bod y baban wedi'i gollu, yn enwedig ar ddechrau beichiogrwydd, a bydd hyn ond yn cael ei ganfod yn ystod sgan rheolaidd cynnar. Bydd byrddau iechyd a staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth hon i fenywod a'u partneriaid mewn lleoliadau priodol, ond



yn aml oherwydd seilwaith eiddo'r ysbyty mae hyn yn golygu mynd â nhw drwy leoliadau clinigol i ardal breifat briodol.

Dywed y Gweinidog fod ei swyddogion wedi ysgrifennu ddiwedd 2019 yn gofyn am sicrwydd gan y Byrddau Iechyd Lleol bod eu gwasanaethau camesgoriad yn gweithio yn unol â chyfarwyddyd NICE a chanllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG), a nododd ymatebion y Byrddau Iechyd fod gwasanaethau'n cael eu cynnig mewn dull priodol. Serch hynny, mae'r ymateb yn cydnabod:

[...] mae lle i wella bob amser a bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae gohebiaeth y Gweinidog yn nodi hefyd:

- Gofynnwyd i'r arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes sefydlu Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol i **ddatblygu'r gwaith hwn** yn seiliedig ar adroddiad terfynol yr [Arolwg Cwmpasu Gwasanaethau Profedigaeth yng Nghymru](#);
- Bydd y Gweithgor Cymorth mewn Profedigaeth presennol yn **uno â'r Grŵp hwn**, a thrwy hynny sicrhau bod sefydliadau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'r rhai yr effeithir arnynt gan golli babanod a marwolaeth sydyn i gyd yn cael eu cynrychioli;
- Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod **£1 miliwn ychwanegol ar gael** ar gyfer cymorth mewn profedigaeth o 2021-22 ymlaen, a bydd hwnnw wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â bylchau o ran y gwasanaethau profedigaeth a ddarperir. Datblygir fframwaith profedigaeth cenedlaethol, wedi'i gefnogi gan lwybrau gofal, hyfforddiant a safonau, yn dilyn hyn.



Ein cyf/Our ref VG/03296/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Government.Committee.Business@llyw.cymru

24 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar 19 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â chyflwyno ward ar wahân i'r ward mamolaeth ar gyfer teuluoedd sy'n dioddef camesgoriad.

Mae camesgoriad ar unrhyw gyfnod o feichiogrwydd yn cynrychioli colli baban, a'r holl obeithion a breuddwydion a ddaw gyda hynny. Bydd camesgoriad cynnar yn aml yn digwydd gartref neu yn y gwasanaethau gynaeoleg. Bydd cymorth yn cael ei roi gan y gwasanaeth gofal sylfaenol gan gyfeirio'r fenyw at sefydliadau cymorth perthnasol fel y *Miscarriage Association* <https://www.miscarriageassociation.org.uk/>. Bydd y gwasanaeth bydwragedd cymunedol hefyd yn estyn allan os yw'r fenyw eisoes yn eu gofal.

Os ceir camesgoriad hwyr, bydd gofal yn cael ei ddarparu gan y gwasanaethau mamolaeth lleol, sy'n lleoliad priodol ar ddiwedd beichiogrwydd. Mae byrddau iechyd yng Nghymru wedi bod yn gweithio yn rhagweithiol i sicrhau bod ystafelloedd profedigaeth wedi'u sefydlu i roi preifatrwydd, a bod cymorth profedigaeth dilynol ar gael sy'n cefnogi'r rhieni a'r teulu ehangach hefyd. Mae'n brofedigaeth sy'n effeithio ar y teulu cyfan ac oherwydd hyn rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r gwasanaethau gorau ar gyfer menywod a'u teuluoedd

Yn aml, ni ellir tybio bod y baban wedi'i golli, yn enwedig ar ddechrau beichiogrwydd, a bydd hyn ond yn cael ei ganfod yn ystod sgan rheolaidd cynnar. Bydd byrddau iechyd a staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth hon i fenywod a'u partneriaid mewn lleoliadau priodol, ond yn aml oherwydd seilwaith eiddo'r ysbyty mae hyn yn golygu mynd â nhw drwy leoliadau clinigol i ardal breifat briodol.

Ar ddiwedd y llynedd, fe ysgrifennodd fy swyddogion at fyrddau iechyd yn ceisio sicrwydd eu bod yn gweithredu eu gwasanaethau camesgoriad yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a chanllawiau gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG). Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod y gwasanaethau'n cael eu cynnig mewn modd priodol. Ond mae lle i wella bob amser a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 92**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau.

Sefydlodd fy swyddogion Weithgor Cymorth Profedigaeth yn 2019 er mwyn sicrhau bod cymorth digonol ar gael ar gyfer teuluoedd sydd wedi colli babi neu blentyn. Roedd y gweithgor yn cynnwys elusennau, sefydliadau cymorth a swyddogion. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd astudiaeth cwmpasu gwasanaethau profedigaeth gan Brifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad â Marie Curie a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru ar ran y Bwrdd Gofal Diwedd Oes. Mapiodd yr astudiaeth y cymorth presennol sydd ar gael, sy'n amrywio o wasanaethau cyfeirio i wasanaethau cwnsela arbenigol, gan nodi'r ardaloedd lle mae angen rhagor o adnoddau. Gellir gweld yr astudiaeth yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arolwg-cwmpasu-o-wasanaethau-profedigaeth-yng--nghymru-adroddiad-diwedd-astudiaeth.pdf>

Roedd cwmpas yr astudiaeth yn cynnwys yr ystod eang o gymorth profedigaeth sydd ar gael, gan gynnwys cymorth i blant a phobl ifanc. Roedd yn tynnu sylw at y bylchau a'r heriau mewn cymorth profedigaeth, ac yn codi sawl peth i'w ystyried ar gyfer datblygu gwasanaethau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal profedigaeth yng Nghymru. Byddai hyn yn hwyluso buddsoddiad mewn cymorth profedigaeth ar lefel sefydliadol a rhanbarthol ac yn darparu cydraddoldeb a mynediad i lefelau priodol o gymorth sy'n ymateb i anghenion lleol.

Gofynnwyd i'r arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes, Dr Idris Baker, i sefydlu Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol i ddatblygu'r gwaith hwn. Bydd y Gweithgor Cymorth Profedigaeth presennol yn uno â'r Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol gan sicrhau bod sefydliadau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'r rheiny sydd wedi'u heffeithio gan golled babi a marwolaeth sydyn yn cael eu cynrychioli. I fynd i'r afael â'r bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth profedigaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £1m ychwanegol ar gael ar gyfer cymorth profedigaeth o 2021-22. Bydd hyn yn rhoi amser i alluogi datblygu'r fframwaith profedigaeth cenedlaethol a'r llwybrau, hyfforddiant a'r safonau a fydd yn dilyn.

Diolch eto am ysgrifennu ataf ynglŷn â'r mater hwn. Rwy'n gobeithio bod fy ateb o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

## Eitem 3.2

### P-05-966 STOPIWCH yr isafbris am alcohol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Raymond Mainwaring, ar ôl casglu cyfanswm o 64 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Stopiwch yr isabris am alcohol. NID yw pobl Cymru wedi pleidleisio dros y gyfraith WIRION hon. Nid oes UNRHYW dystiolaeth yn unrhyw le yn y byd bod hyn yn gweithio. Y cyfan y bydd yn ei wneud yw cosbi'r rhai llai cefnog a phensiynwyr, ni fydd pobl sy'n ennill cyflog da fel aelodau'r Llywodraeth yn teimlo effaith y ddeddf a orfodir arnom. Nid yw'r treial a wnaed yn yr Alban wedi llwyddo i leihau'r maint o alcohol a yfir, os unrhyw beth, mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n troi at gyffuriau a chynnydd mawr mewn dwyn o siopau. Ydyn ni eisiau hyn i Gymru? Pryd fydd y Llywodraeth yn dysgu nad yw unrhyw ddull o wahardd yn gweithio? Ystyriwch hanes.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru

# Reverse minimum price alcohol

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Gorffennaf 2020  
Petitions Committee | 7 July 2020

**Reference:** RS20/12961-2

**Petition Number:** P-05-966

**Petition title:** Reverse minimum price alcohol

**Text of petition:**

Stop Minimum price for alcohol. The people of Wales have NOT voted for this STUPID Law. There is NO evidence anywhere in world that this works. All it will do is penalise the less well off and pensioners, people on good money like Government members won't feel the effect of a law imposed on us. The trial in Scotland has hardly been a success with drink consumption if anything rising and more people turning to drugs and a big increase in shoplifting. Do we want this for Wales? When are people in Government going to learn, no form of prohibition works. Check history.



# 1. Background

The Welsh Government's Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act was passed by the Assembly in June 2018.

The legislation provides for a minimum price for the sale/supply of alcohol in Wales, and makes it an offence for alcohol to be sold below that price.

Section 1 of the Act sets out the formula to calculate the minimum selling price for alcohol. This is based on a minimum price per unit of alcohol. The minimum unit price (MUP) was not set in the Act. The Welsh Government consulted on a proposed minimum unit price of 50p between September and December 2018. Draft regulations setting the MUP at 50p were approved in Plenary on 12 November 2019. The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Minimum Unit Price) (Wales) Regulations 2019 were subsequently made on 20 November 2019, and came into force on 2 March 2020.

The legislation has not increased the price of every alcoholic drink, only those that were being sold below the minimum price. The main impact is likely to be on alcohol sold in supermarkets and off-licenses, particularly the relatively low cost but high strength products, and where it is sold in multipacks or as part of a sales promotion. Prices in the on-trade (e.g. pubs and clubs) will be largely unaffected as they typically sell at well above the MUP.

## Aims of the legislation

Minimum pricing is a targeted measure, which aims to reduce hazardous and harmful levels of drinking. As described in the Explanatory Memorandum (EM) which accompanied the Bill, the legislation will form part of the Welsh Government's wider strategic approach to tackling alcohol-related harm. The EM states:

The ultimate objective of the Bill is to tackle alcohol-related harm, including alcohol-attributable hospital admissions and alcohol-related deaths in Wales, by reducing alcohol consumption in harmful and hazardous drinkers. In particular, the Bill is targeted at protecting the health of harmful and hazardous drinkers (including young people)

who tend to consume greater quantities of low-cost and high-alcohol content products.

---

## Sheffield Alcohol Policy Model

Alcohol policy development in the UK has been informed by modelling work carried out by Sheffield University. In 2009, the Sheffield Alcohol Research Group (SARG) at Sheffield University developed the Sheffield Alcohol Policy Model to assess the potential impact of alcohol policies, including different levels of minimum unit pricing, for the population of England. The model has subsequently been adapted for other areas, including Scotland and Canada.

In 2014 the Welsh Government commissioned SARG to adapt the model for Wales. **Updated modelling** was published in February 2018. This found that:

- A minimum unit price set at between 35 and 70p would be effective in reducing alcohol consumption among hazardous and, particularly, harmful drinkers. These consumption reductions would lead to reductions in alcohol-related mortality and hospitalisations. Higher levels of MUP lead to greater reductions in consumption and harm.
- Moderate drinkers would experience only small impacts on their alcohol consumption and spending following the introduction of a minimum unit price. This is because they tend to buy alcohol which would be subject to little or no increase in price under the policy. Higher levels of MUP have larger impacts on the consumption of moderate drinkers.
- The greatest impact of a minimum unit price would be on the most deprived harmful drinkers. Deprived drinkers consuming at moderate levels would be more affected than other moderate drinkers, but the overall impact on their alcohol consumption and spending remains small.

## Scrutiny of the legislation

The majority of stakeholders were supportive of the legislation as a public health measure. Most opposition to minimum pricing came

from within the alcohol industry (although this isn't the case across the board - major supermarkets for example have differed in their views).

Although the policy was widely supported, a number of concerns were raised during scrutiny of the Bill. These include:

- The lack of real-world experience of minimum pricing, and the extent to which a mathematical model can predict the impact of the policy on alcohol consumption and harm.
- Whether minimum pricing will unfairly penalise moderate drinkers.
- Whether there will be a disproportionate impact on low income groups.
- How the policy will affect vulnerable, dependent drinkers, including whether there's a risk of substituting non-beverage forms of alcohol or illegal drugs if the price of alcohol increases.
- The potential for an increase in cross-border trade, to the detriment of Welsh businesses.
- How the alcohol industry might respond to a potential windfall in profits as a result of minimum pricing.

These issues are discussed in some detail in the Health, Social Care and Sport Committee's **stage 1 report**. The Committee supported the general principles of the legislation, but cautioned that the Bill itself and wider policy require further consideration. The Committee made a number of recommendations aimed at strengthening the legislation and its implementation, and avoiding potential unintended consequences, particularly with regards to dependent drinkers. It also noted that further action is needed 'to ensure the impacts of minimum unit pricing, including any unintended consequences, are monitored and understood'.

The Committee's report emphasised that minimum pricing won't be effective in isolation, and that a range of measures are needed to tackle alcohol misuse.



## Evaluation and sunset provision

The Act places a duty on the Welsh Ministers to report on the operation and effectiveness of the Act the end of a five year period.

The Act also includes a sunset clause. The minimum pricing regime established by the legislation will cease to have effect after six years, unless the Welsh Ministers make regulations providing otherwise.

## Scotland

A 50p minimum unit price for alcohol was implemented in Scotland in May 2018. Public Health Scotland is leading the evaluation of MUP in Scotland through its Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy (MESAS) work programme. Some early findings have been published – an analysis of off-trade alcohol sales over the full year following the introduction of MUP (published in January 2020) shows the volume of pure alcohol sold per adult in Scotland fell by 3.6%.

Further results, published in June 2020, also suggest that the introduction of MUP in Scotland was associated with a reduction in the total volume of pure alcohol sold off-trade per adult, highlighting that in England and Wales (where the legislation did not apply), per-adult alcohol sales increased over the same time period.

Based on the controlled interrupted time series results presented in this report, the best estimate of the net reduction in per-adult off-trade sales in Scotland as a result of MUP is between 4 and 5%.

A final report is to be published in late 2023.

## 2. Welsh Government response

In his response to the Petitions Committee, the Minister for Health and Social Services says that the legislation is a 'crucial part of our work in tackling substance misuse across Wales'. His letter describes 'strong national and international evidence' that

the introduction of a minimum unit price will reduce levels of alcohol consumption and have a positive impact on public health.

The Minister highlights that the minimum pricing arrangements are subject to a programme of evaluation. He also states that the Welsh Government is monitoring the impact of Scotland's minimum pricing policy. He notes that it is 'too early to draw any conclusions at this point'.

Every effort is made to ensure that the information contained in this briefing is correct at the time of publication. Readers should be aware that these briefings are not necessarily updated or otherwise amended to reflect subsequent changes.



Ein cyf/Our ref VG/03298/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

11 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar 19 Mai ynghylch y ddeiseb a gawsoch gan Mr Raymond Mainwaring ynglŷn â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ('y Ddeddf').

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhan hanfodol o'n gwaith i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar draws Cymru. Mae nifer o gamau gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 2019-22 sy'n gweithio i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru. Rydym yn buddsoddi bron i £53m y flwyddyn i gefnogi ein hagenda camddefnyddio sylweddau. Mae'r isafbris am alcohol yn rhan o'r rhaglen waith ehangach a pharhaus hon.

Effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth hon yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol a marwolaethau cysylltiedig ag alcohol, drwy leihau'r alcohol sy'n cael ei yfed gan yfwrwr peryglus a niweidiol. Mae effaith niwed cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn sylweddol. Yn 2018-19, roedd bron i 60,000 o dderbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag alcohol ac yn 2018 yn unig, cafwyd 535 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru. Mae pob un o'r marwolaethau hyn yn farwolaeth yr oedd yn bosibl ei hatal. Mae materion cysylltiedig ag alcohol hefyd yn costio tua £159m i'r GIG bob blwyddyn.

Roedd y Ddeddf yn cyflwyno darpariaeth i Weinidogion Cymru bennu isafbris uned ar gyfer gwerthu alcohol yng Nghymru. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad am 12 wythnos ym mis Medi 2018 ar y lefel a ffafrwyd, sef isafbris o 50c yr uned am alcohol. Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bryd hynny, ar yr isafbris o 50c yr uned am alcohol ar 12 Tachwedd 2019 ac fe'i cyflwynwyd ar 2 Mawrth 2020. Roedd pob un o'r prif bleidiau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

Fel y nodwyd ym Memorandwm Esboniadol y Ddeddf, mae tystiolaeth o wahanol rannau o'r byd yn dangos bod pris alcohol o bwys – wrth i bris alcohol gynyddu, mae'r swm sy'n cael ei

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 100**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yfed yn lleihau, a hynny yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd. Mae tystiolaeth gryf yn genedlaethol ac yn rhyngwladol gan wledydd sydd eisoes wedi cynyddu eu pris gwerthu alcohol yn awgrymu bod cyflwyno isafbris uned am alcohol yn lleihau'r symiau o alcohol sy'n cael ei yfed, ac yn achub bywydau.

Hefyd, roedd ymchwil gan Brifysgol Sheffield yn 2018, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amcangyfrif y byddai 66 yn llai o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol bob blwyddyn a 1,281 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty cysylltiedig ag alcohol bob blwyddyn, yn seiliedig ar isafbris o 50c yr uned.

Nod y ddeddfwriaeth yw brwydro yn erbyn y diodydd cryf sy'n cael eu gwerthu am brisiau rhad a'u hyfed mewn cyfeintiau mawr, gan roi pobl mewn perygl hirdymor o ddioddef canser, strôc, clefyd y galon, clefyd yr afu a difrod i'r ymennydd. Mae yfwyr peryglus a niweidiol ym mhob grŵp incwm yn yfed cynnyrch rhad sydd â lefelau alcohol uchel. Ond yr yfwyr niweidiol yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf sydd mewn mwyaf o berygl o niwed cysylltiedig ag alcohol. Mae'n bosibl y gall yr isafbris uned am alcohol leihau'r lefelau yfed peryglus a niweidiol yn y grwpiau hyn, gan leihau'r risg o niwed cysylltiedig ag alcohol o ganlyniad. Felly, y nhw fydd yn cael y manteision iechyd mwyaf o'r polisi hwn.

Sylwaf fod Mr Mainwaring yn cyfeirio at weithredu isafbris uned am alcohol yn yr Alban. Cyflwynodd yr Alban yr isafbris uned am alcohol bron i ddwy flynedd yn ôl ac mae'r arwyddion cynnar wedi dangos lleihad yng nghyfaint yr alcohol pur yn y diodydd a werthwyd, yn ogystal â lleihad yn nifer y diodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu am brisiau annerbyniol o isel.

Nid yw'r adroddiadau terfynol o werthusiad cyflwyno'r isafbris uned am alcohol yn yr Alban wedi'u cyhoeddi eto. Ond mae adroddiadau interim yn dangos bod peth cynnydd wedi'i wneud. Er enghraifft, dangosodd adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr eleni, a oedd yn trafod dadansoddiad cyntaf y gwerthiannau alcohol allfasnach dros y flwyddyn lawn yn dilyn cyflwyno'r isafbris uned am alcohol, bod y cyfaint o alcohol pur a werthwyd i bob oedolyn yn yr Alban wedi lleihau 3.6%.

O'i gymharu â'r deuddeg mis cyn gweithredu'r isafbris uned am alcohol ym mis Mai 2018, lleihaodd cyfaint yr alcohol pur a werthwyd i bob oedolyn yn y sector allfasnach yn yr Alban o 7.4 i 7.1 litr. Yng Nghymru a Lloegr – lle nad oedd isafbris uned am alcohol – cynyddodd y cyfaint o alcohol pur a werthwyd yn y sector allfasnach yn ystod yr un flwyddyn o 6.3 i 6.5 litr.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ymchwil gyda manwerthwyr bychan yn yr Alban ar ddiwedd mis Mai 2020. Adroddodd yr awduron yn y Sefydliad Marchnata Cymdeithasol ym Mhrifysgol Stirling mai ychydig iawn o ganlyniadau negyddol posibl a fu o ganlyniad i weithredu isafbris uned am alcohol, fel cynnydd mewn lladrata melysion neu gynnydd yn y fasnach anghyfreithlon leol, yn ôl cyfweiliadau archwilio gyda manwerthwyr a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth. Hefyd, roedd yr astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad o wasg y fasnach manwerthu, a rhoddodd yr awduron wybod yn dilyn gweithredu'r Ddeddf, bod sawl erthygl wedi rhoi gwybod am effaith bositif yr isafbris uned am alcohol ar allu manwerthwyr bychain i gystadlu gyda'r archfarchnadoedd, maint yr elw, a gwerth gwerthiannau alcohol yn gyffredinol. Ychydig iawn o adroddiadau a gafwyd o ymateb gwrthwynebus gan gwsmeriaid, ac roedd peth awgrym bod ymddygiad gwrthgymdeithasol ger eiddo wedi lleihau pan nad oedd cynnyrch alcohol rhad a chryf bellach yn cael eu gwerthu yno. Nid oedd awgrym yn yr erthyglau yng ngwasg y fasnach manwerthu bod cwsmeriaid wedi symud i brynu ar-lein, dros y ffin, neu yn anghyfreithlon fel y rhagwelwyd ar ôl gweithredu'r isafbris uned am alcohol. Doedd dim adroddiadau bod pobl yn newid arferion i ddefnyddio alcohol nad yw'n ddiod neu i gymryd cyffuriau.

Bydd adroddiadau pellach ar wahanol agweddau o werthusiad yr Alban yn cael eu cyhoeddi dros y blynyddoedd nesaf, gyda'r adroddiad terfynol ar gyfer yr Alban yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2023.

Yma yng Nghymru, cyn gweithredu, fe gomisiynodd swyddogion astudiaeth ymchwil i edrych ar y potensial y bydd unigolion yn newid i sylweddau eraill ar ôl cyflwyno'r isafbris uned am alcohol yng Nghymru. Casglodd yr ymchwil farn a safbwyntiau darparwyr gwasanaeth ac yfwyr gan ddefnyddio cyfuniad o gyfweiliadau ansoddol a holiaduron arolwg ar-lein. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol o'r gwaith hwn ym mis Hydref 2019. Y neges allweddol gyntaf oedd mai'r unig newid o ran defnydd ar gyfer y mwyafrif o yfwyr fydd newid yn y math o alcohol ac y bydd ar y cyfan yn addasiad o'u hymddygiad presennol o fewn y fframwaith prasio newydd (e.e. newid yn y math o alcohol neu newid mewn ymddygiad prynu). Awgrymwyd hyn oherwydd y teimlwyd, ar gyfer llawer o yfwyr, mai alcohol yw eu cyffur o ddewis ac nad yw symud i gyffuriau, yn enwedig ar ffiniau gweithgarwch cyfreithlon/anghyfreithlon yn opsiwn.

Rydym hefyd wedi comisiynu ein gwerthusiad ein hunain, gan gynnwys gwaith pellach yn adeiladu ar yr astudiaeth uchod. Bydd adroddiadau interim o'r astudiaethau hynny ar gael tua dwy flynedd ar ôl gweithredu'r Ddeddf a bydd yr adroddiadau terfynol ar gael i hysbysu'r adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf gerbron y Senedd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pum mlynedd. Mae Swyddogion hefyd yn monitro'r canfyddiadau a ddaw o'r Alban. Felly, mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau ar hyn o bryd.

Rwy'n gobeithio bod yr ateb hwn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

### P-05-969 Ymchwiliwch i Reoliadau Drafft y Gronfa Ddata Addysg 2020 - diangen ac yn tanseilio hawliau dynol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan 'Mountain Movers Registered Charity', ar ôl casglu cyfanswm o 236 lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r pwyntiau a ganlyn:

1) Pa dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i defnyddio wrth greu'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr Ymgynghoriad ynghylch y Rheoliadau Drafft (WG 39220) sy'n:

a) awgrymu bod y rheoliadau presennol ar gyfer plant sy'n colli addysg yn methu â nodi nifer sylweddol o blant

b) Sut y bydd cronfa ddata a'r canllawiau drafft blaenorol (2019) yn cyflawni targedau'r Asesiad Effaith Integredig?

2) Pa dystiolaeth sy'n dangos bod plant Addysg Ddewisol yn y Cartref mewn mwy o berygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu o beidio â chyrraedd eu llawn botensial?

3) Eglurhad. A oes nod tymor hwy i fonitro/rheoleiddio cynnwys addysg/cwricwlwm addysgol gyda phrofion rheolaidd ar gyfer plant Addysg Ddewisol yn y Cartref er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn y canllawiau a'r Asesiad Effaith Integredig?

4) Ymchwilio i'r diffyg mesurau diogelu yn y Rheoliadau Drafft i'w hatal rhag cael eu defnyddio fel modd o olrhain teuluoedd?

5) Ymchwilio i lefel yr ymgynghori â Byrddau Iechyd o ran yr effaith y bydd y Rheoliadau Drafft hyn yn ei chael arnynt, a pham nad oes manylion costau nac asesiad effaith ar gyfer y gwasanaeth iechyd wedi eu cynnwys gyda'r ymgynghoriad hwn?

a) Sut fyddai unrhyw gost a baich ar y GIG yn cael eu cyfiawnhau?

6) Ymchwilio i lefel yr ymgynghori â grwpiau lleiafrifol eraill (cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a theuluoedd plant sy'n mynd i ysgolion annibynnol) er mwyn sicrhau bod eu barn hwy hefyd wedi'i chofnodi?

7) Ymchwilio a yw'r costau a awgrymir yn y Drafft yn realistig ac a ydynt yn ffordd effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio arian trethdalwyr o ystyried bod rheoliadau digonol ar waith eisoes i alluogi awdurdodau lleol i nodi plant sy'n colli addysg, gyda mecanweithiau sy'n galluogi awdurdodau lleol i greu Gorchymyn Goruchwylio Addysg neu Orchymyn Mynychu'r Ysgol mewn achosion lle nodir bod plentyn yn colli addysg?

A fyddai cynyddu'r cyllid a chymorth i wasanaethau cymdeithasol yn lle yn fwy effeithiol ac effeithlon?

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Targedau Asesu Effaith Penodol:

“helpu i sicrhau bod plant yn datblygu ac yn cyrraedd eu potensial llawn, ac yn lleihau'r posibilrwydd na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant”

“cefnogi'r nod o greu Cymru fwy cyfartal, cymdeithas sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau a chyflawni eu potensial, ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau”

“Ysgogir y cynigion hyn gan yr angen i gefnogi hawl plant i addysg a sicrhau eu bod nhw, a’u rhieni, yn cael eu grymuso a’u bod yn teimlo’n gyfforddus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi’u targedu sydd â’r nod o gefnogi eu llesiant”

“sicrhau bod pob plentyn yn arfer ei hawl i gael addysg yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 a bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu a gwireddu eu huchelgeisiau.”

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru



# Addysg ddewisol yn y cartref

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Gorffennaf 2020  
Petitions Committee | 7 July 2020

Cyfeirnod: RS20/12937

**Rhif y ddeiseb:** P-05-969

**Teitl y ddeiseb:** Ymchwiliwch i Reoliadau Drafft y Gronfa Ddata Addysg 2020 – diangen ac yn tanseilio hawliau dynol

**Geiriad y ddeiseb:** Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r pwyntiau a ganlyn:

1) Pa dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i defnyddio wrth greu'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr Ymgynghoriad ynghylch y Rheoliadau Drafft (WG 39220) sy'n:

a) awgrymu bod y rheoliadau presennol ar gyfer plant sy'n colli addysg yn methu â nodi nifer sylweddol o blant

b) Sut y bydd cronfa ddata a'r canllawiau drafft blaenorol (2019) yn cyflawni targedau'r Asesiad Effaith Integredig?

2) Pa dystiolaeth sy'n dangos bod plant Addysg Ddewisol yn y Cartref mewn mwy o berygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu o beidio â chyrraedd eu llawn botensial?

3) Eglurhad. A oes nod tymor hwy i fonitro/rheoleiddio cynnwys addysg/cwricwlwm addysgol gyda phrofion rheolaidd ar gyfer plant Addysg Ddewisol yn y Cartref er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn y canllawiau a'r Asesiad Effaith Integredig?

4) Ymchwilio i'r diffyg mesurau diogelu yn y Rheoliadau Drafft i'w hatal rhag cael eu defnyddio fel modd o olrhain teuluoedd?



5) Ymchwilio i lefel yr ymgynghori â Byrddau Iechyd o ran yr effaith y bydd y Rheoliadau Drafft hyn yn ei chael arnynt, a pham nad oes manylion costau nac asesiad effaith ar gyfer y gwasanaeth iechyd wedi eu cynnwys gyda'r ymgynghoriad hwn?

a) Sut fyddai unrhyw gost a baich ar y GIG yn cael eu cyfiawnhau?

6) Ymchwilio i lefel yr ymgynghori â grwpiau lleiafrifol eraill (cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a theuluoedd plant sy'n mynd i ysgolion annibynnol) er mwyn sicrhau bod eu barn hwy hefyd wedi'i chofnodi?

7) Ymchwilio a yw'r costau a awgrymir yn y Drafft yn realistig ac a ydynt yn ffordd effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio arian trethdalwyr o ystyried bod rheoliadau digonol ar waith eisoes i alluogi awdurdodau lleol i nodi plant sy'n colli addysg, gyda mecanweithiau sy'n galluogi awdurdodau lleol i greu Gorchymyn Goruchwyllo Addysg neu Orchymyn Mynychu'r Ysgol mewn achosion lle nodir bod plentyn yn colli addysg?

A fyddai cynyddu'r cyllid a chymorth i wasanaethau cymdeithasol yn lle yn fwy effeithiol ac effeithlon?

## 1. Cefndir

Mae rhieni'n dewis addysgu eu plant yn y cartref am lawer o resymau. Gall y rhesymau hyn fod yn rhai ideolegol neu athronyddol sy'n ffafrio addysg yn y cartref, neu ddymuniad i ddarparu addysg sydd â sail wahanol i'r hyn a geir mewn ysgolion fel rheol. Efallai bod rhieni'n anfodlon â'r system ysgolion, neu'r ysgol y mae lle ar gael ynddi. Mae'r rhesymau eraill yn cynnwys plentyn yn cael ei fwlio yn yr ysgol, rhesymau iechyd, yn enwedig iechyd meddwl y plentyn, amharodrwydd neu anallu plentyn i fynd i'r ysgol, gan gynnwys ffobia o'r ysgol neu anghenion addysgol arbennig, neu'r canfyddiad nad yw'r system ysgolion yn darparu'n briodol ar gyfer yr anghenion hynny.

Mae [Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data](#) am nifer y plant y mae'n hysbys eu bod yn cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2018/19, **roedd yn hysbys bod 2,517 o blant yn cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref yng Nghymru**. Cynyddodd cyfradd y disgyblion a addysgir yn ddewisol yn y cartref yn 2018/19 i **6.6 ym mhob 1,000 o blant**, o'i chymharu â 5.5 o bob 1,000 yn 2017/18. Gan fod rhieni'n hysbysu eu hawdurdod lleol yn wirfoddol eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref (oni bai eu bod wedi tynnu eu plentyn allan o'r ysgol), efallai na fydd y data hyn yn cynnwys pob plentyn a addysgir yn ddewisol yn y cartref.

## 1.1. Y cefndir cyfreithiol

Caiff rhieni addysgu eu plant yn y cartref ar yr amod eu bod yn cyflawni gofynion adran 7 o Ddeddf Addysg 1996:

7. Duty of parents to secure education of children of compulsory school age.

The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable –

(a) to his age, ability and aptitude, and

(b) to any special educational needs he may have,

either by regular attendance at school or otherwise.

Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cynnydd plant a addysgir yn y cartref. Fodd bynnag, o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddod o hyd i blant nad ydynt yn derbyn addysg addas:

**436A Duty to make arrangements to identify children not receiving education**

(1) A local authority must make arrangements to enable them to establish (so far as it is possible to do so) the identities of children in their area who are of compulsory school age but

(a) are not registered pupils at a school, and

(b) are not receiving suitable education otherwise than at a school.

## 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2012, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch cynigion i ddeddfu i gyflwyno cynllun cofrestru a monitro gorfodol ar gyfer plant a addysgir yn ddewisol yn y cartref. Esboniodd Huw Lewis, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau ar y pryd, mewn [datganiad ar 6 Mai 2014](#), ei fod wedi penderfynu peidio â chyflwyno deddfwriaeth, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau anstatudol.

Yn dilyn [ymgyngoriad](#) ym mis Mai 2015, cyhoeddwyd [Addysg ddewisol yn y cartref. Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol](#), a hynny ym mis Ionawr 2017. Mae'r canllawiau'n ceisio egluro hawliau rhieni/gofalwyr sy'n addysgu plant yn y cartref a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, ac maent yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch datblygu a chynnal perthynas â theuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref. Mewn [datganiad ar 9 Ionawr 2017](#), dywedodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, fod y canllawiau'n ceisio sicrhau cydbwysedd priodol ond, er hynny:

Credaf fod angen i ni addasu dull mwy cadarn o ddarparu addysg i bob plentyn, ni waeth ymhle y darperir yr addysg honno. Bydd y canllawiau hyn yn rhan o becyn o fesurau rwyf yn eu

hystyried i gefnogi awdurdodau lleol, y gymuned addysgu gartref a darparwyr amgen, yn cynnwys y potensial o gyflwyno deddfwriaeth.

Ar 29 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch canllawiau statudol i awdurdodau lleol a llawlyfr i addysgwyr yn y cartref. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod awdurdodau lleol wedi galw am ganllawiau mwy cadarn na chanllawiau anstatudol 2017 o ran adnabod plant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg addas, ac o ran asesu pa mor addas yw'r addysg a gânt yn y cartref.

Rhwng 30 Ionawr 2020 ac 13 Mai 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Drafft Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020. Byddai'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i:

- i bob awdurdod lleol sefydlu a chynnal cronfa ddata i'w helpu i adnabod plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir, cofrestr addysg heblaw yn yr ysgol na chofrestr ysgol annibynnol, ac nad ydynt yn derbyn addysg briodol
- i fyrddau iechyd lleol ddatgelu i awdurdodau lleol wybodaeth anghlinigol am blant sy'n preswyl fel rheol yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw
- i ysgolion annibynnol ddatgelu i awdurdodau lleol wybodaeth ynghylch dysgwyr sydd wedi cofrestru yn eu sefydliad.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 22 Mehefin 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fydd yn bosibl cwblhau'r gwaith a gynlluniwyd ar y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg yn ystod tymor y Llywodraeth hon (hyd at fis Mai 2021) a hynny oherwydd effaith sylweddol Covid-19 ar adnoddau Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio y byddai'r Llywodraeth nesaf yn bwrw ymlaen â'r diwygiadau.

## 2.1. Comisiynydd Plant Cymru

Mae tri adroddiad blynyddol diwethaf Comisiynydd Plant Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno newidiadau polisi sylweddol o i sicrhau nad yw plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn anweledig a'u bod yn cael eu holl hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys eu hawl i addysg, eu hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu bywydau a'u hawl i fod yn ddiogel.

Pan gyhoeddwyd adroddiad blynyddol 2018-19 y Comisiynydd Plant (ym mis Hydref 2019), argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei pholisi diwygiedig, gyda'r nod o ateb y tri phrawf a ganlyn yn llawn:

- Sicrhau y gellir cyfrif am bob plentyn yng Nghymru ac nad yw yr un yn byw yn anweledig o ran gwasanaethau cyffredinol a chymdeithas yn gyffredinol;
- Bod pob plentyn yn cael addysg addas, a bod ganddo fynediad at ei hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch; ac
- Na ellir cyflawni hyn heb alluogi pob plentyn i gael ei weld, a bod ei safbwyntiau, gan gynnwys ei safbwyntiau am ei addysg, a'i brofiadau, yn cael gwrandawriad.

Mewn ymateb i gyhoeddiad y Gweinidog na fyddai'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r rheoliadau na'r canllawiau yn ystod tymor y Senedd hon, dywedodd [Comisiynydd Plant Cymru](#) ei bod wedi ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi ei 'siom aruthrol' â'r penderfyniad hwn; nododd ei phryderon a gofynnodd nifer o gwestiynau roedd yn credu roedd angen atebion iddynt ynghylch y penderfyniadau hyn. Dywedodd:

Rwyf wedi nodi o'r blaen y byddwn i'n defnyddio fy mhwerau statudol i adolygu sut mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer eu swyddogaethau pe na bai llawer o gynnydd wedi'i wneud i roi gwell amddiffyniad i hawliau plant sy'n cael eu haddysg gartref. Rwyf wedi ailadrodd hyn i'r Llywodraeth yn fy llythyr ac rwy'n diswyl ei ymateb i nifer o gwestiynau rwyf wedi'u codi ynghylch y penderfyniadau a wnaed yn ddiweddar a sut mae hawliau plant wedi'u hystyried a'u cadarnhau fel rhan o hyn.

## 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

### 3.1. Y Pwyllgor Deisebau

Cafwyd pum deiseb ynghylch addysg yn y cartref cyn y ddwy sy'n cael eu trafod yn y cyfarfod hwn. Mae'r Pwyllgor yn trafod dwy'n ymwneud â'r canllawiau anstatudol drafft ar hyn o bryd:

- [P-05-922 Tynnu'n ôl y canllawiau arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref](#) a gyflwynwyd gan Wendy Charles-Warner ar ôl casglu 5,447 o lofnodion.
- [P-05-923 Ydych chi'n gwrandao arnom ni? Hawliau a Pharch i Addysg yn y Cartref!](#) a gyflwynwyd gan Mountain Movers Education Charity ar ôl casglu cyfanswm o 512 o lofnodion.

Y tro diwethaf i'r Pwyllgor drafod y ddwy ddeiseb oedd 4 Chwefror 2020 a chytunwyd i:

- ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru i ofyn am ei barn am y materion a godwyd a sut, yn ei barn hi, y gellir sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng y buddion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y cyswllt hwn;
- chwilio am ragor o dystiolaeth ysgrifenedig gan gyrff sy'n cynrychioli addysg yn y cartref yng Nghymru; a
- gwahodd y Gweinidog Addysg i roi tystiolaeth mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Dyma'r tair deiseb flaenorol a oedd wedi cau:

- **P-04-646: Deiseb yn erbyn Canllawiau Anstatudol yng Nghymru ar Gyfer Awdurdodau Lleol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref** a drafodwyd gan y Pwyllgor Deisebau yn 2015. Aeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd i'r afael â phryderon y deisebydd a chytunodd i sicrhau y byddai ei safbwyntiau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu'r canllawiau newydd. Felly, cafodd y ddeiseb ei chau.
- **P-04-517: Atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno system i fonitro plant sy'n dewis cael eu haddysgu gartref o dan wedd diogelu** a drafodwyd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Mehefin 2014; a
- **P-04-437: Gwrthwynebu cofrestru gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref** a drafodwyd rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Mehefin 2014. Y deisebydd hwn gyflwynodd un o'r deisebau y mae'r Pwyllgor yn eu trafod ar hyn o bryd (P-05-922, Tynnu'n ôl y canllawiau arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref).

Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg ar y pryd, ei fod wedi penderfynu, ar ôl ymgynghori, peidio â deddfu ar gyfer cynllun cofrestru a monitro gorfodol yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Felly cafodd y ddwy ddeiseb eu cau (P-04-517 a P04-437).

### 3.2. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi parhau i ymddiddori ym maes addysg ddewisol yn y cartref ac wedi gohebu â'r Gweinidog Addysg a Chomisiynydd Plant Cymru, ac eraill:

- 28 Chwefror 2018: **Llythyrau rhwng y Gweinidog Addysg a Chomisiynydd Plant Cymru ynghylch cronfa ddata a chanllawiau statudol arfaethedig**
- 22 Tachwedd 2018: **Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Prif Weinidog**
- 28 Tachwedd 2018: **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gomisiynydd Plant Cymru**
- 10 Ionawr 2019: **Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru**
- 30 Ionawr 2019: **Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru**
- 18 Gorffennaf 2019: **Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru a Llythyr gan y Gweinidog Addysg**
- 14 Tachwedd 2019: **Llythyr gan Protecting Home Education Wales ynghylch y canllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol am addysg yn y cartref ac e-bost gan yr ymddiriedolwr a chyswllt Cymru ar gyfer Education Otherwise ynghylch y canllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol am addysg yn y cartref**
- 19 Tachwedd 2019: Mae'r **Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg (19 Tachwedd 2019)** yn ceisio eglurhad am y materion cyfreithiol ynghylch y canllawiau.

## 4. Y sefyllfa yn Lloegr

Yn dilyn galwad gynharach am dystiolaeth, ar 2 Ebrill 2019 cyhoeddodd Adran Addysg Llywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch deddfwriaeth arfaethedig yn ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Mehefin 2019.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau am gynigion i greu pedair dyletswydd newydd:

- dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw cofrestr o blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgol annibynnol gofrestredig;
- dyletswydd ar rieni i ddarparu gwybodaeth i'w hawdurdod lleol os yw eu plentyn o fewn cwmpas y gofrestr;
- dyletswydd ar leoliadau addysg y mae plant ar y gofrestr yn eu mynychu i ymateb i ymholiadau gan awdurdodau lleol am yr addysg a ddarperir i blant unigol; a

- dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref os bydd teuluoedd o'r fath yn gofyn amdano.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.





Ein cyf/Our ref KW/01859/20  
Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

09 Mehefin 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mehefin ynghylch deiseb P-05-969, sef “Ymchwiliwch i Reoliadau Drafft y Gronfa Ddata Addysg 2020 – diangen ac yn tanseilio hawliau dynol”.

Mae'r ymateb cenedlaethol sy'n datblygu i Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru – gan gynnwys ar adnoddau polisi a chyllid ac, wrth gwrs, ar y capasiti deddfwriaethol. Mae'r pwysau newydd ar waith y Llywodraeth o ddydd i ddydd a'r effaith sylweddol y mae Covid-19 yn ei chael ar ein hadnoddau wedi golygu bod rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd.

Felly, gallaf roi gwybod i chi bod y Cabinet wedi cynnal ymarfer blaenoriaethu'n ddiweddar i werthuso'r hyn yr mae modd ei gyflawni a'r hyn na ellid ei gyflawni yn ystod y cyfnod ansicr hwn. O ganlyniad i'r ymarfer, ni fydd y gwaith arfaethedig ar addysg yn y cartref ac, yn yr achos hwn, Rheoliadau'r Gronfa Ddata Addysg 2020 drafft, yn mynd rhagddynt yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Nid yw hyn yn golygu fy mod yn cytuno bod y rheoliadau drafft yn ddiangen neu'n mynd yn groes i hawliau dynol. Mae'n siom na fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio addysg yn y cartref yn y tymor hwn, ond mae'r cyfnod presennol yn un nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen ac, rwy'n siŵr y cytunwch bod yn rhaid blaenoriaethu adnoddau i reoli effaith Covid-19 yng Nghymru.

Er hynny, mae'r diwygiadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi ac rwy'n bwriadu cadw llygad ar y sefyllfa. Os bydd yr amgylchiadau'n newid yn sylweddol, byddaf yn ailystyried y penderfyniad i beidio â pharhau â'r gwaith ar y rheoliadau. Byddaf yn rhoi gwybod i chi os

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 114**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bydd hyn yn digwydd, a byddaf yn ymateb i'r pwyntiau penodol a gafodd eu codi yn y ddeiseb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

<b>TEITL</b>	<b>Canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>22 June 2020</b>
<b>GAN</b>	<b>Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg</b>

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y cynigion ar gyfer canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg.

Mae'r ymateb cenedlaethol i Covid-19, sy'n datblygu'n barhaus, wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau Llywodraeth Cymru - mae hyn yn cynnwys yr adnoddau ariannol a pholisi ac, wrth gwrs, y cynlluniau deddfwriaethol ar gyfer tymor y Llywodraeth hon.

Mae datblygu'r cynigion ar gyfer y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg wedi bod yn flaenoriaeth i mi. Fodd bynnag, mae angen adnoddau sylweddol i'w cyflawni.

Mae'r pwysau newydd ar waith bob dydd Llywodraeth Cymru ac effaith sylweddol Covid-19 ar ein hadnoddau wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn. Bellach, ni fydd yn bosibl cwblhau'r gwaith a gynlluniwyd ar y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'r rhanddeiliaid hynny sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion, ac yn enwedig y rheini a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriadau.

Er fy mod yn siomedig na allwn barhau i ddatblygu'r cynigion hyn, rwy'n gobeithio y bydd modd i'r diwygiadau gael eu cyflwyno gan y Llywodraeth nesaf cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser, bydd swyddogion y Llywodraeth yn archwilio opsiynau polisi posibl ar gyfer diwallu anghenion plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.

Mae hwn yn gyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod yn rhaid blaenoriaethu adnoddau i reoli effaith Covid-19 yng Nghymru.

# Eitem 4.1

P-05-922 Tynnu'n ôl y canllawiau arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref  
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Wendy Charles-Warner, ar ôl casglu  
cyfanswm o 5,447 lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru  
i dynnu'n ôl y canllawiau arfaethedig ar gyfer addysg yn y cartref.

## **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arfaethedig ar  
gyfer addysg yn y cartref. Mae hyn yn mandadu bod yn rhaid i rieni sy'n  
addysgu yn y cartref gwrdd â'u hawdurdod lleol a chaniatáu i'r awdurdod  
lleol gyfweld â'u plant. Rydym wedi cael cyngor cyfreithiol arbenigol sy'n  
hawlio bod y canllawiau'n anghyfreithlon ac mae'r deisebwyr yn gofyn bod y  
canllawiau'n cael eu tynnu'n ôl i'w hailystyried yng ngoleuni'r cyngor hwnnw.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Dyffryn Clwyd
- Gogledd Cymru

**P-05-922 Withdraw the proposed home education guidance & P-05-923 Are you listening to us? Home Education Rights and Respect!, Correspondence – Home Education Flintshire to Committee, 28.02.20**

Home Education Flintshire

Dear Committee Members,

Thank you for the invitation extended to home educators to provide their views in relation to the petitions P-05-923 '*Are you listening to us? Home Education Rights and Respect!*' and P-05-922 '*Withdraw the proposed home education guidance*'. We are responding on behalf of Home Education Flintshire, a home education community group which currently has 181 members.

The petition asking for the withdrawal of the proposed guidance gained substantial support in Flintshire (and across North Wales) as the home educating community supports the issues raised by the petition that the proposed guidance is unlawful in respect of home educator's rights. The decision to home educate is not one that is made lightly and parents/ guardians take their responsibilities seriously, do so with integrity and are acting within the law. There has been an overwhelming response from home educators that the proposed guidance for local authorities is not based on an understanding and appreciation of the integrity and rights of the parents and families but insinuates that the parents are not to be trusted to make decisions in the child's best interests or to provide them with an education. There are several key areas of concern for home educators regarding the proposed guidance.

Firstly that parental authority is recognised in the guidance as a protected right, as stated in European Convention for the Protection of Human Rights and that the local authority has no right to interfere in how parents raise and educate their children, provided that that education is full time and suitable to the needs and abilities of the child.

Secondly that the current legal stance on home education is upheld, the law requires that local authorities act on the presumption that a full and suitable education is being provided. Unless there is positive evidence that the education is not suitable then the LA cannot lawfully reach a conclusion to the contrary. There is also no remit for the LA to seek out such evidence. Should such concern and evidence arise the LA already has sufficient powers and the measures already exist for the concerns to be followed up, via social services and potentially a School Attendance Order.

There is real concern regarding the suggested role and powers of the LA in the guidance. For instance language in the guidance implies that a parent has an obligation to give a reason for deregistering their child from school when they do not. The LA can request evidence and explanations but they cannot lawfully demand them.

Many parents are particularly concerned about the emphasis in the guidance on meeting with the child. The LA has the right to request a meeting with the child but there is no legal requirement for a family to agree to a meeting. In paragraph 4.21 the guidance sets out that the LA **should** see and speak with the home educated child. This emphasis and the note that a family's refusal is not a good enough reason for the LA not to meet with the child is very concerning. It suggests that families are obliged to meet with the LA when they are not. There is also the suggestion that the LA can see a child without the parents, there is no lawful basis for an LA to do so just because a child is home educated.

School education and home education are equal in the eyes of the law. Paragraph 4.24 says that *'if it is clear that a child does not wish to be educated at home although the education provision is satisfactory, the local authority should discuss the reasons for this with the parents and encourage them to consider whether home education is in the best interests of the child when clearly it is not what the child wants.'* This suggestion is unlawful not only in its presumption that school education is somehow a better option but in the implication that the LA have the right to insist on discussions with the child/ parents and that they have any role in questioning the parental choice. As far as we are aware there is no instance in which a school educated child would be questioned regarding their desire to be school educated and certainly no interference from the LA regarding the parental choice to do so. In this way the guidance makes recommendations that are a clear interference in a family's Human rights (Article 8, right to respect for private and family life) and discriminates against home educated families as the same would not be asked of other families.

It is also important to home educators that the guidance is clear on the fact that home education cannot be considered a cause for concern and is, in and of itself, not a safeguarding issue.


All families have a protected right to raise their children free from unwarranted state interference. The proposed guidance appears to diminish the right of home educating parents/families and presents itself as being based on a belief that the state knows what is best for a child above and beyond its parents. Through the language used and the duties and objectives it sets out for local authorities the guidance reinforces set prejudices and biased practices against home educators in a way that is not only unreasonable but also unlawful. It is of the utmost concern to us that rights of home educating families are upheld in any guidance provided to the local authority by the Welsh Government.

Yours Faithfully,

Leaf Pettit

Home Education Flintshire Administrator

On behalf of Home Education Flintshire



## Wrexham And Surrounds Home Education

c/o 49 Princess Street, Wrexham, Wrecsam LL13 7US  
01978 350822  
cthomp1508@googlemail.com

Dear Committee Members,

**Recommendations 3 and 4** were about the use of Traffic Regulation Orders – the process used by local authorities to ban pavement parking on selected streets or a wider area. There is a need to make TROs simpler and cheaper by removing the need to advertise in local newspapers. A separate review of TROs has already been initiated through the TRO Discovery Project, any necessary change in legislation will not be achieved by spring 2020.

**Recommendation 5** asked the Government to speed up the transfer of parking powers from the police to local authorities for those areas that have yet to 'decriminalise' parking. They are going to move forward with as much haste as possible.

**Recommendation 6** followed on naturally, it required the Government to take action to ensure local authorities, police forces, as well as the public, have access to the right information about who enforces what. The Government accepts this recommendation.

**Recommendation 7** asked the Government to consult on a new civil offence of 'obstructive pavement parking'. The advantage with this approach is that civil enforcement officers could issue a fine without needing a TRO in place.



The Government has partially accepted this recommendation, stating that clarity is needed on defining 'unnecessary obstruction' - to avoid differences in enforcement across the country. It also wants to consult on dual enforcement, so that the police can intervene in extreme cases.

Finally, in **Recommendation 8** the TSC agreed with Living Streets and supporting organisations and called on the Government to legislate for a nationwide ban on pavement parking. It viewed this as the long-term solution – which would need to be accompanied by an awareness raising campaign. The Government has also partially accepted this recommendation and will consult on a national ban (and obstructive pavement parking) in the summer.

Yours

Rhiannon Hardiman



**CAMU TUAG AT**

**WAHARDD PARCIO**

**AR BALMENTYDD**

**YNG NGHYMURU**

**RHAGAIR GAN DDIRPRWY WEINIDOG YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH, LEE WATERS AC**

Mae parcio ar balmentydd yn dod yn rhywbeth cyffredin, ond arfer gweddol ddiweddar ydyw. O fewn dim ond ychydig o genedlaethau mae strydoedd preswyl wedi cael eu trawsnewid o fod yn fannau lle byddai plant yn chwarae'n rhydd, i leoedd a reolir gan geir.

Gwir yw dweud bod sawl achos i'r ddibyniaeth ar y car, ond mae'n glir fod iddo lawer o ganlyniadau hefyd.

Mae'r cynnydd mewn allyriadau sydd wedi cyfrannu at yr Argyfwng Hinsawdd a

gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi cyflymu oherwydd cynnydd mewn defnydd ceir. Mae hynny'n wir hefyd am ein hargyfwng ansawdd aer. Oherwydd y lluo o gemegion niweidiol sy'n cael eu pwmpio i'n hatmosffer o bibellau mwg ceir mae ein rheoliadau diogelwch wedi'u torri dro ar ôl tro a Llywodraeth Cymru wedi bod yn destun achos llys.

Mae strydoedd a ddominyddir gan geir yn cyfrannu at ein hargyfwng gordewdra. Mae strydoedd llawn traffig yn creu amgylcheddau sy'n meithrin gordewdra - lleoedd sydd ddim yn annog gweithgarwch corfforol ac sy'n cyfrannu at broblem ffyrdd o fwy eisteddog. Erbyn hyn mae un o bob pedwar o oedolion yng Nghymru yn y dosbarth gordew, ond mae'r ffigur hwnnw'n gostwng yn sylweddol ymhlith y rheini sy'n gorfforol egniol. Mae cael pobl allan o'u ceir ar gyfer siwrneiau byr yn rhoi nifer o fanteision, yn amrywio o aer glanach a

ffyrdd llai prysur i well iechyd meddwl a siopau lleol mwy prysur.

Mae ceir sy'n creu rhwystrau ar balmentydd yn atal nifer o bobl rhag gadael eu tai gan eu bod yn teimlo ei bod yn rhy beryglus i deithio'r strydoedd. Gwyddom fod hyn yn effeithio'n benodol



ar y rheini sydd â nam o ran symudedd a golwg a theuluoedd gyda phlant ifanc.

Mae'r adroddiad hwn gan Living Streets Cymru yn tynnu sylw at y malltod ar gymunedau a achosir gan barcio ar balmentydd. Dywed ymatebwyr arolwg bod hon yn broblem wirioneddol iddynt hwy a'u teuluoedd, yn enwedig o amgylch ysgolion yng Nghymru.

Mae hon yn stori gyfarwydd ledled y DU. Ond mae Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfres o gamau i wneud ein strydoedd yn fannau cyfeillgar i bobl unwaith yn rhagor.

Mae targedau newid hinsawdd uchelgeisiol, a chant o ymrwymïadau cyhoeddus i wneud newidiadau, yn ganolog i'n cynllun carbon isel. Mae ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'n Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn ddeddfwriaethau blaengar sydd â'r nod o newid y ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ar gyfer yr hirdymor,

gyda'r Ddeddf Teithio Llesol yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded a beicio yng Nghymru.

Rydw i wedi sefydlu dau dasglu. Un i edrych ar y ffordd orau i weithredu terfyn cyflymder 20mya diofyn mewn ardaloedd preswyl, a'r llall i ystyried sut yr ydym y mynd i'r afael â pharcio ar balmentydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn hyn beth os ydym o ddifrif ynglŷn â gwneud cerdded yn ddiogel a hygyrch i bawb.

Bydd y tasglu a minnau yn edrych yn agos iawn ar yr hyn y mae ymatebwyr arolwg Living Streets wedi ei ddweud a byddwn yn defnyddio hyn fel rhan o'n tystiolaeth wrth i ni symud yn nes tuag at fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan barcio ar balmentydd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Living Streets Cymru i wneud yn siŵr ein bod, gyda'n gilydd, yn creu gwell amgylchedd cerdded i bawb yng Nghymru.



# CRYNODEB GWEITHREDOL

MAE CERBYDAU SY’N CAEL EU PARCIO AR BALMENTYDD AC YN ACHOSI RHWYSTR A DIFROD I WYNEB LLWYBRAU TROED YN BROBLEM ERS TRO BYD I GERDDWYR. YNG NGHYMRO DYWED 83% O BOBL BOD PARCIO AR BALMENTYDD YN BROBLEM GYFFREDIN FAWR NEU FAWR IAWN.

Hefyd, dywed 80% o bobl nad oes ganddynt unrhyw hyder, neu fawr o hyder, yng ngallu eu hawdurdod lleol i ddelio â’r broblem ac mae 83% yn cefnogi gwaharddiad ar barcio ar balmentydd yng Nghymru.

Ar hyn o bryd gall awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i greu gwaharddiadau fesul stryd neu ardal gyfan. Gall hwn fod yn ymarferiad hir a drud. Gall yr heddlu hefyd erlyn gyrwyr am achosi rhwystr, ond anaml iawn y gorfodir hyn. Cred Living Streets mai gwneud parcio ar balmentydd yn anghyfreithlon - oni bai bod hynny wedi’i eithrio’n benodol pan fo’n ddiogel ac angenrheidiol i wneud hynny – yw’r unig ateb synhwyrol.

Arweiniodd cyflwyniad Bil Trafnidiaeth (Yr Alban) at gyfraith newydd i wahardd parcio ar balmentydd yn yr Alban ac fe’i cymeradwywyd ym mis Hydref 2019. Roedd hyn yn dilyn arolwg a gynhaliwyd gan Lywodraeth yr Alban ynglŷn â gwella parcio, lle’r oedd 85% o ymatebwyr o’r farn y dylid gorfodi rheolau parcio yn gyson drwy’r wlad. Yn yr un modd, canfu arolwg gan Living Streets Cymru bod 83% o’r ymatebwyr o blaid gwaharddiad ledled y wlad. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad a groesawir i gyflwyno gwaharddiad o’r fath ac wedi sefydlu tasglu i ymchwilio sut y gellir cyflawni hyn.



## 1. Rhagymadrodd

Mae cerbydau sy'n cael eu parcio ar balmentydd (llwybrau troed) yn peri cymaint o broblem mewn dinasoedd ag y maent mewn trefi a phentrefi gwledig, oherwydd eu bod yn lleihau'r gofod i gerddwyr. Gall hyn achosi rhwystr a chyfyngu ar annibyniaeth nifer o bobl fregus, yn arbennig pobl hŷn a phobl anabl sydd â nam o ran symudedd neu eu golwg. Mae parcio ar balmentydd yn creu perygl i bobl, er enghraifft, pan fydd teuluoedd gyda chadeiriau gwthio neu bobl sydd â chŵn tywys yn cael eu gorfodi i gerdded ar y ffordd ac yn llwybr ceir sy'n dod tuag atynt. Ar gyfer pobl mewn cadair olwyn, gall palmant sydd wedi'i rwystro eu hatal rhag parhau â'u siwrnai oherwydd efallai na fydd cwrw isel yno i alluogi iddynt groesi'r ffordd.

Mae parcio ar balmentydd yn peri pryder mawr i gefnogwyr Living Streets yng Nghymru. Gofynnem i'n cefnogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol:

### Faint o broblem yw parcio ar balmentydd?

Cymerodd dros 1,000 o bobl ran yn ein harolwg: dywedodd 83% ohonynt fod parcio ar balmentydd yn broblem gyffredin fawr neu fawr iawn (gweler isod). Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai angen bod marwolaeth er mwyn cael pobl i weithredu. Cysylltodd dau ymatebydd farwolaeth y ferch fach Esme Weir yn Neston yng Ngilgwri, pan aeth fan ar y palmant er mwyn dosbarthu nwyddau<sup>1</sup>, gyda diffyg gweithredu parhaus ynglŷn â pharcio ar balmentydd. Mae hyn yn dangos diffyg hyder llwyr yng ngallu neu barodrwydd cynghorau (a'r heddlu) i fynd i'r afael â phroblem parcio ar balmentydd.

Mae parcio ar balmentydd yn broblem i'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd. Yn 2018, datgelodd cais rhyddid gwybodaeth gan Living Streets i awdurdodau lleol yng Nghymru bod 88% ohonynt wedi derbyn llythyrau gan aelodau o'r cyhoedd yn cwyno am parcio ar balmentydd.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> <https://www.liverpoolecho.co.uk/news/liverpool-news/delivery-driver-who-mounted-pavement-12782437>

<sup>2</sup> O'r 88% o awdurdodau lleol ag ymatebodd i'r arolwg ac wedi seilio ar ymateb gan 64% (16 allan o 22 awdurdod lleol).



## Faint o broblem yw parcio ar balmentydd yng Nghymru?

Mae'n broblem fawr iawn	Mae'n broblem fawr	Mae'n broblem gyffredin	Mae'n broblem fach	Nid yw'n broblem
29%	25%	29%	10%	7%

### Effaith parcio ar balmentydd

“Pan fyddaf allan yn cerdded gyda chadair wthio a'r ci byddaf yn aml yn dod ar draws heriau gwirioneddol oherwydd parcio ar balmentydd. Yn aml bydd yn rhaid i mi roi fy hun, fy mabi a'm ci mewn perygl er mwyn canfod fy ffordd o amgylch y ceir sydd wedi'u parcio ar y palmant drwy gerdded ar y ffordd gan nad oes digon o le i mi fynd heibio iddynt. Fe fyddaf hefyd yn gweld cerbydau'r cyngor wedi'u parcio ar balmentydd.” **(Sally)**

“Rwy'n gweithio yn y Ganolfan Ystum a Symudedd sy'n cynnal gwasanaeth cadeiriau olwyn. Mae'n rhaid i'n staff a'n cleifion deithio ar y ffordd oherwydd bod cerbydau masnachol yn parcio ar y palmentydd.” **(Adam)**

“Fe wnaeth fy mam, a oedd yn 93 oed ond yn ddigon egniol, gwmpo a thorri ei chlun mewn dau le pan barciodd rhywun ei gar ar y cwrp isel ar gornel ei stryd, gan greu rhwystr iddi gyda'i ffrâm gerdded. Fe'i gorfodwyd i fynd i fyny llethr tu ôl i'r car er mwyn croesi'r ffordd a throdd ei ffrâm drosodd dros grwb uchel a gwneud iddi gwmpo i'r stryd. Cafodd lawdriniaeth frys, treuliodd gyfnod hir yn yr ysbyty, ac wedi blwyddyn a hanner o waith adsefydlu a ffisiotherapi, a phoen cwbl ddiangen, mae'n dioddef o ddiffyg hyder sy'n golygu ei bod wedi bod bron yn gaeth i'r tŷ ers hynny. Dydw i ddim yn poeni pa mor werthfawr y mae gyrwyr yn credu yw eu cerbydau: i gerddwyr mae palmentydd.” **(Ruth)**

“Mae'r ddau ohonom yn anabl. Mae fy ngŵr yn defnyddio cadair olwyn drydan i gyrraedd pobman. Bydd yn wynebu rhwystrau yn ddyddiol oherwydd bod gyrwyr difeddwl yn creu rhwystrau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn/sgwteri symudedd/cadeiriau gwthio. Yn aml bydd yn rhaid iddo yrru o amgylch cerbydau i'r ffordd neu groesi'r stryd lle bo'n ddiogel gwneud hynny. Mae'n mynd yn rhwystredig dros ben. Mae gyrwyr a cherbydau nwyddau mor anystyriol, ac os byddwch yn siarad â nhw maent yn aml yn anghwrtais. Yn aml hefyd byddant yn creu rhwystr ar gyrbau isel fel na all fy ngŵr gyrraedd llwybr.” **(Lynne)**



Mae parcio ar balmentydd yn broblem ers tro byd. Canfu arolwg gan YouGov gyda phobl 65 oed a throsodd a gomisiynwyd gan Living Streets yn 2014 bod parcio ar balmentydd yn broblem ar gyfer 73% o bobl hŷn yn eu hardal leol; dywedodd 50% o'r ymatebwyr y byddent yn fwy tebygol i gerdded y tu allan pe bai'r palmentydd yn glir o gerbydau wedi'u parcio. Yn yr un modd, canfu arolwg YouGov a gomisiynwyd ar gyfer lansiad adroddiad 'State of our Streets' Living Streets yn 2012 mai'r problemau y soniwyd amdanynt yn fwyaf cyffredin (dwy ran o dair o'r ymatebwyr) oedd sbwriel a chŵn yn baeddu, ac yna'n agos y tu ôl hynny roedd pobl yn parcio ar balmentydd.

Ni fwriadwyd i wynebau llwybrau troed gynnal pwysau cerbydau ac mae'r difrod y maent yn ei achosi yn cynyddu'r perygl o faglu a chwympo. Amcangyfrifodd adroddiad gan y Labordy Ymchwil Trafnidiaeth bod nifer y bobl a dderbyniwyd i adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai yn 2002 o ganlyniad i 'gwympo ar ddiffygion mewn wynebau cerdded cyhoeddus' yn amrywio rhwng 20,000 a 190,000 ar gyfer y DU gyfan<sup>ii</sup>. Cyfrifodd yr un adroddiad bod codwm ar lwybr troed yn costio £5,606 (prisiau 2005; mae cyfrifiannell chwyddiant y DU yn dangos bod hyn yn cyfateb i £8,300 yn 2019).<sup>3</sup> Er bod yr awduron yn cydnabod bod gyrru ar balmentydd yn un o achosion difrod i balmentydd, ni ddaethant o hyd i unrhyw ddata a oedd yn dweud pa gyfran o'r difrod a achoswyd gan gerbydau yn symud neu'n parcio ar lwybrau troed.

Nid yw'n bosibl gwybod yn union faint o bobl sy'n baglu neu'n cwmpo ar lwybrau troed (nad yn wir ar y ffordd) oherwydd bod ceir wedi parcio ar y palmant. Er hynny, datgelodd gais rhyddid gwybodaeth a wnaed gan yr AA yn 2018, bod 10,329 o hawliadau anafiadau wedi'u gwneud gan gerddwyr i awdurdodau lleol yn y DU<sup>ii</sup>, dros y 12 mis hyd at 31 Mai y flwyddyn honno. Gallai nifer gwirioneddol y cwmpadau fod yn uwch. Yn 2011 amcangyfrifwyd bod pob gwaith atgyweirio i balmant yn costio dros £80 (o gymharu â £52-£75 (2018) ar gyfer atgyweiriadau sydd wedi'u cynllunio/yr ymatebir iddynt i dyllau yn

<sup>3</sup> Gan ddefnyddio <http://www.in2013dollars.com/uk/inflation/2005?amount=5606>

<sup>i</sup> Gweler <https://www.transport.gov.scot/media/42239/improving-parking-in-scotland-may-2018.pdf>

<sup>ii</sup> TRL (2006). 'Development of a risk analysis model for footways and cycletracks', adroddiad prosiect sydd wedi'i gyhoeddi PPR1717

<sup>iii</sup> Gweler <https://www.theaa.com/about-us/newsroom/the-shocking-state-of-pavements>





y ffordd<sup>iii</sup>). Mae cost trwsio cerrig palmant o ganlyniad i barcio ar balmentydd yn ychwanegu baich ariannol diangen ar gynghorau sydd eisoes yn brin o arian.

## 2. Sut caiff parcio ar balmentydd ei reoli?

Awdurdodau lleol Cymru sy'n gyfrifol am reoli parcio. Mae'r Llywodraeth yn argymhell bod awdurdodau priffyrdd yn defnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'r Ddeddf yn galluogi iddynt gyfyngu ar neu wahardd parcio ar balmentydd ar strydoedd unigol neu mewn ardal benodol drwy wneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO). Gellir defnyddio TRO arbrolol hefyd i brofi dulliau er mwyn dileu a/neu reoleiddio parcio ar balmentydd (er enghraifft, lle bo'r palmant yn ddigon llydan, mewn cilfachau wedi'u marcio). Unwaith bod TRO ar waith, gall swyddogion gorfodi sifil gyflwyno hysbysiad rheoli parcio - cod 62 - a dirwy er mwyn rheoli'r broblem.

Mae'n anghyfreithlon i yrru ar balmentydd<sup>4</sup>, ond yn y rhan fwyaf o leoedd yn y DU caiff parcio ar balmentydd ei ystyried yn 'gyfreithlon'. Gellir herio hyn gan adran 137 Deddf Priffyrdd 1980, sy'n dweud ei bod yn drosedd i rwystro'n fwriadol lwybr rhydd ar briffordd. Fodd bynnag, yn ymarferol ni chaiff hyn ei orfodi'n aml gan yr heddlu.

Yn Llundain, mae parcio ar balmentydd wedi'i wahardd yn y 32 bwrdeistref ac yn Ninas Llundain o dan Ddeddf Llundain Fwyaf (Dibenion Cyffredinol) 1974. Fodd bynnag, gall awdurdod priffyrdd "drwy benderfyniad... awdurdodi" parcio ar y palmant - gan osgoi costau Gorchymynion Rheoleiddio Traffig. Gwneir eithriadau ar sail strydoedd unigol.

Gwnaethom ofyn y canlynol i bobl yng Nghymru:

### Pa mor hyderus ydych chi y gall yr awdurdodau yn eich ardal ddelio â pharcio ar balmentydd yn eich ardal?

---

<sup>4</sup> Mae rheol 145 o God y Briffordd yn nodi: "RHAID I CHI BEIDIO â gyrru ar balmant, llwybr troed neu lwybr ceffylau neu drosodd ac eithrio i gael mynediad cyfreithlon i eiddo, neu mewn achos o argyfwng".



Hyderus iawn	Gweddol hyderus	Dim yn siŵr	Dim yn arbennig o hyderus	Dim yn hyderus o gwbl
2%	5%	12%	22%	58%

Gan ystyried yr arsylwadau yn yr adran uchod mae 80% o'r ymatebwyr yn mynegi fawr ddim hyder, neu dim hyder o gwbl, yng ngallu eu hawdurdod lleol i ddelio â'r broblem.

Mae rhoi TRO ar waith yn broses hir a drud. Gall gymryd hyd at ddwy flynedd ac mae'n gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus eang. Fodd bynnag, ar adeg ein cais rhyddid gwybodaeth yn 2018 dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru, Dinas Abertawe, ddywedodd ei fod wedi gorfod defnyddio TRO i reoli parcio ar balmentydd yn y ddwy flynedd flaenorol (2016-8). Gosodwyd y TRO ar gyfer un stryd a chostiodd £500. Roedd y costau a adroddwyd ar gyfer Lloegr (fel rhan o'r un cais rhyddid gwybodaeth) yn amrywio o gyfartaledd o £250 am bob arwydd a phostyn, i dros £3,000 ar gyfer pob stryd er mwyn codi arwyddion llinellau, selio'r gorchymyn, cyhoeddi hysbysiadau yn y papur lleol a chostau staff.

### Y sefyllfa yn yr Alban: Y Bil Trafnidiaeth (Yr Alban)

Yn yr Alban, lobiodd y Gynghrair Parcio Cyfrifol, a arweinir gan Living Streets Scotland, am y Bil Parcio Cyfrifol. Roedd gan y Bil Aelod a gynigwyd gan Sandra White MSP gefnogaeth drawsbleidiol gan 58 o Aelodau Senedd yr Alban. Cafodd ei oedi gan ansicrwydd ynglŷn â phwerau datganoledig ac fe'i ail-lansiwyd yn 2015 gan Sandra White fel y Bil Parcio ar Lwybrau Troed a Pharcio Dwbl (Yr Alban). Ceisiodd Bil Aelod Preifat Mark Lazarowicz AS - Bil Parcio Cyfrifol (Yr Alban) 2014-15 - egluro hawl yr Alban i ddeddfwriaethau ar faterion parcio. Diwygiwyd Bil yr Alban 2016 i roi pwerau i Senedd yr Alban dros barcio yn Rhan 4 Deddf yr Alban 2016. Y mis Ebrill 2019, cytunodd Llywodraeth yr Alban mewn egwyddor i weithredu'r Bil Trafnidiaeth (Yr Alban) er mwyn rhoi gwaharddiad cenedlaethol parcio ar lwybrau troed ar waith<sup>iv</sup>. Pleidleisiwyd ar ddiwygiadau terfynol i'r Bil a chymeradwywyd deddf newydd i wahardd parcio ar balmentydd yn yr Alban ym mis Hydref 2019.

<sup>iv</sup> Gan Age UK (2011) 'Pride of Place <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/age-uks-pride-place-campa-fe3.pdf>



### 3. Cefnogaeth ar gyfer gwaharddiad cenedlaethol yng Nghymru

Mae 83% o'r ymatebwyr i'n harolwg parcio ar balmentydd yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad ar barcio ar balmentydd. Gwnaethom hefyd ofyn i bobl sôn wrthym am eu profiadau o broblem parcio ar balmentydd. Ymhlith y materion a fynegir yn gyson wrth sôn am barcio ar balmentydd mae:

Ofn cerdded yn y ffordd gyda phlant bach neu gael eu taro gan bobl sy'n gyrru ar y palmant (yn arbennig y tu allan i ysgolion oherwydd efallai na fydd plant bach yn gweld cerbydau sy'n dod ac na fydd gyrrwyr yn gallu eu gweld hwythau):

- Y bregusrwydd a brofir gan y cerddwyr lleiaf abl wrth gael eu gorfodi i'r ffordd
- Ymddygiad ymosodol gan yrwyr tuag at gerddwyr sy'n gofyn iddynt beidio â pharcio ar y palmant
- Sut mae'n broblem i bob cerddwr, nid dim ond y rhai mwyaf bregus
- Anafiadau e.e. gan gerbydau sy'n creu rhwystr ar y palmant
- Y risg a'r perygl sy'n gysylltiedig â gyrru ar lwybr troed er mwyn parcio
- Materion diogelwch ehangach yn arbennig o ran gwelededd, ond hefyd cyflymder cerbydau pan orfodir cerddwyr i gerdded ar y ffordd
- Sut mae'n cyfyngu ar ryddid pob i fynd allan
- Diffyg gweithredu ar y mater gan yr awdurdodau perthnasol



Yr hyn a ddaeth i'r amlwg o'r sylwadau a dderbyniwyd gennym oedd teimlad clir o hawl, wedi'i gyfuno â diffyg dealltwriaeth neu empathi ar gyfer yr effaith a achosir gan bobl sy'n parcio ar balmentydd. Mae cyfleustra i yrrwyr a'r amharodrwydd i gerdded yn achosi anafiadau ar lwybrau troed ac yn gorfodi pobl (sy'n dibynnu ar gerdded fel dull trafnidiaeth) i fynd ar y ffordd. Mae hyn yn digwydd er bod Rheolau'r Ffordd Fawr yn dweud na ddylai gyrrwyr barcio ar balmentydd. Amcan allweddol newid y gyfraith fel bod rhagdybiaeth glir nad oes hawl i barcio ar balmentydd (oni chaniateir yn wahanol), yw herio'r diwylliant goddefol o barcio ar balmentydd.

## Herio'r diwylliant o barcio ar balmentydd

"Bu bron i mi gael fy nharo i lawr pan yrrodd gyrrwr ar balmant roeddwn i'n cerdded arno a pharcio ei char o fy mlaen ar y palmant! Roedd yn rhaid i mi gerdded ar y ffordd! Pan gwynais wrthi dywedodd mai dim ond am deg munud yr oedd yn parcio yno; doedd ganddi ddim syniad." **(Carol)**

"Mae gan fy merch Acondroplasia (math o gorchedd aelodau byr); ni fyddai car yn gyrru i lawr y ffordd ar y cyflymder y maent yn ei wneud yn ei gweld tan y funud olaf. Mae pawb yn parcio ar y palmentydd yn yr ardal lle rydym yn byw felly mae'n rhaid i ni gerdded ar y ffordd. Mae ganddynt ddreif ar gyfer eu ceir ond yn defnyddio'r palmentydd. Dydw i ddim yn deall y peth." **(Lorraine)**

"Os byddaf yn cerdded gyda fy nghi tywys, mae'n rhaid i mi naill ai sefyll ac aros neu fynd ar y ffordd, sy'n beryglus. Bydd y bobl sy'n parcio ar balmentydd yn dweud yn aml eu bod yn gwneud hynny gan na allant gerdded yn bell, ond os oes ganddynt fathodyn glas, dylent sylweddoli beth yw goblygiadau'r hyn maent yn ei wneud." **(Jane)**

"Y broblem yn fy ardal i yw rhieni'n gollwng ac yn casglu eu plant o'r ysgol. Maent yn credu bod hawl ganddynt i barcio lle bynnag a sut bynnag y mynnant oherwydd ei fod 'dim ond am bum munud'". **(Lloyd)**



Roedd 10% o'r ymatebwyr yn erbyn gwaharddiad ar barcio ar balmentydd gyda 8% ddim yn siŵr. Rhoddwyd nifer o resymau am hyn, yn amrywio o:

- Mae angen lle ar gerbydau brys a cherbydau gwasanaethau i basio
- Mae'r ffyrdd eisoes yn rhy gul ac nid ydynt wedi'u bwriadau ar gyfer y lefel bresennol o berchnogaeth cerbydau (e.e. cartrefi sydd â nifer o geir a faniau)
- Mae gyrwyr yn cael eu cosbi'n annheg. Mae angen eu ceir ar bobl ac nid oes ganddynt unrhyw le arall i barcio, felly beth yw'r dewis sydd ganddynt?
- Os na all teuluoedd sy'n ymweld barcio, gallai trigolion sydd â llai o symudedd deimlo'n ynysig
- Dylai bod mwy o gefnogaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus fel dewis amgen i geir
- Nid yw'n broblem, cyn belled bod digon o le i gerddwyr sydd â chadeiriau gwthio
- Parcio anghyfrifol gan leiafrif o yrwyr yw'r broblem ac addysg yw'r ateb

## Pam y dylid caniatáu parcio ar balmentydd

"Rwy'n defnyddio cadair olwyn. Dydw i ddim yn gwrthwynebu parcio ar balmentydd os oes digon o le i basio ac nad yw'n digwydd dros gyrbau isel." **(Elaine)**

"Os nad ydym yn parcio ar balmentydd, all y gwasanaethau brys ddim pasio. Mae strydoedd yng Nghymru yn hen a chul; mae pobl yn llwyddo i fynd heibio i geir sydd wedi'u parcio gan mai dim ond ar hanner y palmant rydym yn parcio. Rwy'n gwybod bod rhai pobl, fel y deillion, yn cael trafferth ond fy marn i yw bod angen rhoi blaenoriaeth i'r gwasanaethau brys." **(Susan)**



Mae'r rhesymau hyn yn dangos camsyniad gwirioneddol y byddai gwaharddiad llwyr yn golygu na fyddai unrhyw barcio yn cael ei ganiatáu ar balmant. Yn hytrach, mae'n golygu troi'r sefyllfa bresennol wyneb i waered. Byddai newid y gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt i alluogi strydoedd i optio i mewn ar gyfer parcio ar lwybr troed yn hytrach nac optio allan. Efallai y gellid caniatáu parcio ar balmentydd mewn rhai strydoedd mewn cilfachau wedi'u marcio, ond byddai'n cael ei reoleiddio ac nid ar gael i bawb.

Yn yr un modd, mae'r Bil Trafnidiaeth (Yr Alban) (fel y'i diwygiwyd ar Gam 2<sup>v</sup>) yn cymryd dull pragmatig ac yn nodi y byddai gwaharddiad ar barcio ar balmentydd yn cael ei eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

“nid oes unrhyw ran o'r cerbyd o fewn 1.5 metr i ymyl y palmant sydd bellaf i ffwrdd o ganol y ffordd (beth bynnag fo ffin yr ymyl hwnnw).” (erthygl 47(2)(c))

Mewn geiriau eraill, byddai parcio ar balmentydd yn cael ei ganiatáu pan fo'r palmentydd yn dal i fod yn ddigon llydan i gerddwyr gerdded yn ddiogel a chyfforddus wrth ochrau'r cerbydau, gyda chadeiriau gwithio, cadair olwyn neu sgwter symudedd.

Y negeseuon eraill sy'n deillio o ganlyniad ein harolwg yw ei bod yn hollbwysig bod codi ymwybyddiaeth, ac yn hanfodol gorfodaeth, yn cyd-fynd â gwaharddiad ar barcio ar balmentydd.

---

<sup>v</sup> Gweler [https://www.parliament.scot/S5\\_Bills/Transport%20\(Scotland\)%20Bill/SPBill33AS052019.pdf](https://www.parliament.scot/S5_Bills/Transport%20(Scotland)%20Bill/SPBill33AS052019.pdf)



## Mae gorfodaeth yn hollbwysig

“Bydd gyrwyr diofal yn aml yn parcio eu ceir yn lletraws ar y palmant yn fy stryd ac yn eu gadael am nifer o ddiwrnodau, weithiau wythnosau. Mae’n rhaid gwneud rhywbeth gan fod riportio’r mater i’r cyngor neu’r heddlu yn wastraff amser ac nid yw swyddogion gorfodi fel petaent o gwmpas pan fydd hyn yn digwydd.” **(Lesley)**

“Mae hi fel petai’r agwedd tuag at orfodi parcio yn llac. Nid oes wardeiniaid ar rawd y tu allan i ganol y dref ac mae hyn yn arwain at barcio peryglus yn yr holl ardal. Mae parcio ar balmentydd a llinellau melyn dwbl yn gyffredin iawn. Yn aml bydd yn rhaid i bobl fynd â phramiau ar ffyrdd prysur oherwydd bod y palmentydd wedi’u rhwystro.” **(Roy)**

“Mae pobl nawr yn parcio’n gyfan gwbl ar balmentydd er mwyn osgoi llinellau melyn dwbl gan eu bod y gwybod na all awdurdodau lleol gymryd camau gweithredu ac mae’n flaenoriaeth isel i’r heddlu.” **(Stuart)**

“Nid oes fawr o bwrpas gosod mesurau oni bai y cânt eu plismona. Rwy’n teimlo’n gwbl ddi-rym i wneud unrhyw beth ynglŷn â phobl sy’n parcio ar balmentydd. Rwy’n hollol ddall a byddaf yn aml yn taro i mewn i gerbydau sydd wedi’u parcio ar balmentydd, yn enwedig cerbydau mawr, gan fod fy ffon wen yn mynd oddi tanynt ac yna bydd fy ysgwydd neu fy wyneb yn taro’r cerbyd ac mae’r canlyniad yn boenus. Fe fyddwn wrth fy modd pe bai’r gyfraith yn cael ei gwneud yn glir ynglŷn â pharcio ar balmentydd a bod system yn cael ei rhoi ar waith i helpu cerddwyr i riportio tor-cyfraith fel eich bod yn gallu gweld bod camau wedi’u cymryd. Nid oes dim byd gwaeth na riportio rhywbeth a bod â dim syniad bod unrhyw beth wedi digwydd o ganlyniad - pam traferthu?” **(John)**

“Os caiff deddfwriaeth ei phasio, a fydd hynny’n gwneud gwahaniaeth? Mae llawer o barcio ar balmentydd yn digwydd dros linellau melyn dwbl gyda dim gobaith y bydd warden yn dod heibio a delio â’r drosedd.” **(Jocelyn)**



## Astudiaethau achos

### Folkert Veenstra

Dywed Folkert Veenstra o Sir Drefaldwyn, bod parcio ar balmentydd yn broblem fawr yn ei hardal hi. Mae'n defnyddio cadair olwyn ac nid yw'n teimlo'n ddiogel yn mynd at yrwyr i gwyno sy'n golygu y bydd yn aml yn gorfod galw'r heddlu pan fydd cerbyd yn creu rhwystr iddi.

“Mae pobl yn defnyddio'r palmant fel maes parcio ac mae hynny'n beryglus i bawb. Rwy'n defnyddio cadair olwyn ac os nad yw'r palmant yn ddigon llydan, alla'i ddim mynd heibio. Mae'n arbennig o wael ar gyfer pobl ddall - gallaf i o leiaf weld y ceir. Nid yw pobl yn meddwl. Nid fel hyn ddylai fod: dylai palmentydd fod ar gyfer pobl.”

Hoffai Folkert weld deddfwriaeth i wahardd parcio ar balmentydd yng Nghymru ac mae'n credu y dylai wardeiniaid parcio a'r heddlu gael yr un pwerau i ddirwyo pobl sy'n parcio'n anghyfreithlon. Mae hefyd yn meddwl y dylai mwy o bobl gwyno fel bod awdurdodau

### Rhian Morris

Mae Rhian Morris yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda Harley, ei mab saith mlwydd oed. Mae'r ddau ohonynt yn rhannol ddall felly mae hi hyd yn oed yn anoddach i deithio o gwmpas pan fydd ceir yn parcio ar balmentydd. Mae'n dweud y bydd llawer o bobl yn ei chymdogaeth ddim yn gadael eu tai ac nid oes ganddynt yr hyder i riportio parcio ar balmentydd.

“Mae'n anodd dros ben i weithio'ch ffordd heibio ceir sydd wedi'u parcio ac mae'n rhaid i mi gynllunio ymlaen llaw pan fyddaf yn mynd allan. Mae'n peri llawer o bryder i mi oherwydd dydw i ddim bob amser yn gwybod a yw hi'n ddiogel i groesi'r ffordd. Rydw i eisiau i Harley allu symud o gwmpas pan fydd yn hŷn, ond yn amlwg rydw i'n cael trafferth.”

Mae ceir yn parcio ar balmentydd y tu allan i ysgol Harley, yn y stryd, ac yng nghanol y dref, ac mae Rhian yn credu bod angen i awdurdodau lleol ddarparu mwy o ofodau parcio penodol. Hoffai Rhian weld gwaharddiad llwyr ac mae'n ymgyrchu yn ei hardal i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r mater a helpu pobl eraill yr effeithir arnynt





## 4. Sut y gallai gwaharddiad weithio yng Nghymru

Y dull gorau yw defnyddio'r pwerau sydd ar gael - Gorchmynion Rheoleiddio Traffig - i ganiatáu parcio ar balmentydd mewn rhai strydoedd ('optio i mewn' yn hytrach na'i wahardd) ar sail strydoedd unigol. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, byddai hon yn broses hir a drud. Dull arall a awgrymwyd yn Lloegr yw ddad-droseddoli y weithred o greu rhwystr. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol osod dirwyon ar gerbydau sy'n rhwystro llwybrau traed. Yn ein barn gallai hwn fod yn fesur interim defnyddiol tra bod gwaharddiad cenedlaethol (a fyddai'n rheoleiddio lle caniateir parcio ar balmentydd) yn cael ei roi ar waith.

Cred Living Streets bod angen i'r gyfraith fod yn gyson ledled Cymru. Gallai dull Llundain – y gwnaethom llobio drosto ac sydd wedi'i fabwysiadu yn y Bil Trafnidiaeth (Yr Alban) – gael ei gyflwyno yn Lloegr (a Chymru) hefyd. Yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i gael TRO, byddai angen i gynghorau basio cynnig i eithrio strydoedd neu leoedd er mwyn caniatáu parcio ar balmentydd. Mae pasio cynnig yn gyflymach ac nid oes angen hysbysebion ac ymgynghoriadau drud. Mae'n ymatebol i angen lleol.

Rhaid aros i weld a fydd Llywodraeth yr Alban yn cynghori awdurdodau priffyrdd yr Alban i ymgynghori â phreswylwyr a/neu fusnesau ar ganiatáu parcio ar balmentydd. Bydd hynny, ynghyd ag ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth a'r cyfrifoldeb ar awdurdodau priffyrdd i sicrhau bod parcio ar balmentydd yn cael ei ganiatáu dim ond lle mae'n ddiogel i wneud hynny, yn costio arian.

Gwrthbwysir hyn drwy gynnig arbedion ariannol enfawr i gynghorau lleol sy'n gorfod talu am drwsio llwybrau troed sydd wedi'u difrodi gan bwysau cerbydau, a'r rhyddid newydd a roddir i bobl mewn cadeiriau olwyn, rhieni gyda chadeiriau gwthio ac oedolion hŷn.

## 5. Materion ehangach

Mynegwyd pryderon ynglŷn â dyluniad ystadau tai newydd lle mae dreifiau cul a strydoedd cul yn golygu nad oes digon o le i barcio, gan orfodi pobl i barcio ar y palmant. Daeth y broblem hon hefyd i'r amlwg mewn ymatebion i arolwg parcio ar balmentydd Living Streets yn Lloegr. Nid yw darpariaeth parcio wedi'i gyfyngu yn ddatrysiaid oni bai bod digon o ddewisiadau amgen o ran teithio a thrafnidiaeth gyhoeddus.



Fe wnaeth ymatebwyr i'n harolwg yng Nghymru hefyd sôn am faterion ehangach ynglŷn â chynnal a chadw palmentydd a rhwystrau eraill, megis gwrychoedd wedi tyfu'n wyllt, biniau olwyn a llanast ar y stryd. Ynghyd â pharcio ar balmentydd, y teimlad oedd bod y rhain yn arwydd o'r flaenoriaeth isel a roddir i gerddwyr.

## 6. Casgliad

Mae Living Streets yn cefnogi'n llwyr fwriad Llywodraeth Cymru i wahardd parcio ar balmentydd. Rydym wedi ymgychu o blaid strydoedd diogelach a mwy hygyrch drwy gydol 90 mlynedd ein bodolaeth. Mae'r arolwg diweddaraf hwn o brofiad pobl o barcio ar balmentydd yng Nghymru yn dangos yr hyn rydym wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd: mae angen i ni wahardd parcio ar balmentydd.

Mae gyrru cerbydau ar lwybrau troed yn beryglus (ac yn anghyfreithlon) oherwydd nid yw cerddwyr yn disgwyl hynny ac efallai na fydd y gyrrwr yn gallu gweld plant ifanc. Gall parcio cerbydau ar lwybrau troed ac achosi rhwystr atal pobl mewn cadeiriau olwyn rhag parhau â'u siwrnai neu orfodi teuluoedd ifanc gyda chadeiriau gwthio i symud i lwybr cerbydau sy'n dod tuag atynt. Mae mwyafrif y bobl a ymatebodd i'n harolwg yng Nghymru yn cefnogi newid y gyfraith.

Byddai newid y gyfraith yn dal i olygu bod gan awdurdodau lleol y dewis i ganiatáu parcio ar balmentydd ar strydoedd lle mae hynny'n ddiogel i gerddwyr a pan fo'n angenrheidiol gwneud hynny. Nod creu gwaharddiad diodyn yw troi'r sefyllfa bresennol wyneb i waered, drwy herio'r diwylliant o oddefoldeb ynglŷn â pharcio ar balmentydd a'i reoleiddio. Gellir defnyddio offer presennol megis Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TRO) i ganiatáu parcio ar balmentydd mewn cilfachau sydd wedi'u marcio. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd am ystyried dad-droseddoli creu rhwystr a defnyddio penderfyniadau'r cyngor (yn hytrach na TRO) i reoli parcio ar balmentydd.

Fodd bynnag, nid yw newid y gyfraith yn unig yn ddigon. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r newidiadau a pham eu bod yn digwydd. Mae hefyd yn angenrheidiol i'r newidiadau hyn gael eu gorfodi. Gwnaeth nifer o bobl sylwadau ar y diffyg gweithredu ynglŷn â pharcio ar balmentydd - a hefyd ynglŷn â materion ehangach yn ymwneud â chynnal a chadw palmentydd. Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddatblygu'r materion hyn ac mae Living Streets yn edrych ymlaen at gefnogi eu cynnydd tuag at ganlyniad cadarnhaol i bawb.





**Ni yw Living Streets, elusen y Deyrnas Unedig ar gyfer cerdded pob dydd. Ein cenhadaeth yw sicrhau gwell amgylchedd i gerdded ynddo ac ysbrydoli pobl i gerdded mwy.**

America House, 2 America Square, Llundain EC3N 2LU

Ff: 020 7377 4900 [www.livingstreets.org.uk](http://www.livingstreets.org.uk) @livingstreets / @LStreetsCymru

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban). Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409. 2 America Square, Llundain EC3N 2LU.



Ein cyf/Our ref LW/00151/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

12 Mai 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Chwefror ynglŷn â Deiseb P-05-935: Gwahardd Parcio ar Balmentydd – Addewid Palmant.

Ar hyn o bryd dim ond cerbydau nwyddau mwy a waherddir rhag parcio ar droedffyrdd a phalmentydd yng Nghymru. Felly, penderfynwyd sefydlu'r Tasglu i edrych ar yr hyn y gellid ei wneud i wahardd pob cerbyd rhag gwneud hynny, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Grŵp wedi ystyried dau ddull amgen er mwyn galluogi camau gorfodi i atal parcio ar balmentydd (troedffyrdd):

- Deddfwriaeth sylfaenol, sy'n creu trosedd newydd o barcio ar balmentydd, yn debyg i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn yr Alban, a'r gwaharddiad hirsefydlog yn Llundain;
- Is-ddeddfwriaeth, drwy ychwanegu'r drosedd o beri rhwystr ar y briffordd yn ddiangen at y rhestrau o dramgwyddau y gallai Swyddogion Gorfodi Sifil awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi yn eu herbyn o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Bydd y Tasglu yn argymhell y dull gorau ac yn adrodd ar weddill ei ganfyddiadau yr haf hwn. Mae'r grŵp yn cynnwys nifer o randdeiliaid sydd â phrofiad gwerthfawr yn y maes hwn. Mae rhestr gynhwysfawr ar y dudalen nesaf.

Ar hyn o bryd dim ond yr heddlu sydd â'r pwerau i ymdrin â materion megis peri rhwystr a pharcio mewn modd peryglus. Os oes gan eich deisebwyr unrhyw bryderon ynghylch cerbydau'n parcio mewn modd sy'n peri rhwystr ar ffordd gyhoeddus, cânt adrodd am y mater i'r heddlu drwy ffonio 101, y rhif ar gyfer yr heddlu os nad oes argyfwng.

Yn gywir,

Lee Waters AS/MS  
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadeirydd – Phil Jones, Phil Jones Associates

Sefydliadau sy'n Aelodau:

- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Parcio Prydain
- Living Streets
- Yr Heddlu
- Cŵn Tywys
- Conffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr y DU
- Cymdeithas Cludiant Ffyrdd
- Prifysgol Gorllewin Lloegr (Bryste)
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyd-bwyllgor PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain)
- Cymdeithas Cludo Nwyddau
- Gwasanaethau Tan ac Achub
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- SUSTRANS
- Anabledd Cymru
- Y Tribiwnlys Cosbau Traffig ar gyfer Cymru a Lloegr
- Cynrychiolwyr Rhanbarthol o Bedwar Awdurdod Lleol

## **P-05-935 Ban Pavement Parking - Pavement Promise, Correspondence – Petitioner to Committee, 29.06.20**

Thank you for your email and the attached documents.

I feel that the attached documents are very informative and highlight views from a number of different backgrounds.

I am pleased that there is a large number of individuals from a variety of organisations on the task force.

I feel it is good to have a variety so that those whom may not feel confident discussing the issues can be heard through others.

I hope that having the task force and allowing the organisations involved to express their views will raise more awareness and understanding.

It is mentioned in one document that an awareness campaign is considered.

We have highlighted during our campaign that more awareness and understanding is needed.

The use of social media has given a lot of good feedback in new understanding of the issue.

I feel that awareness should start from a young age, to then take the knowledge through life.

I am pleased that the documents show that the issue can impact on everyone in different ways.

What we have tried to highlight and feel needs to be a big part in this going forward is that this is to allow people to maintain their independence and also for the future generations to come.

It is important that everyone has equal opportunities.

Those who may not have the luxury of driving or choose to stay healthy on foot should not be put at risk or danger.

It is noted in the results from the living streets survey that there is a lack of trust in the local authorities to enforce this issue.

How will you ensure that enforcement is carried out and how will reporting an issue be carried out?.

I agree that a lack of parking is an issue that needs to be addressed.

This is something I have previously discussed during the campaign.

What is an estimated time frame on the decision of the task force findings to be put in place?.

The next general election for the National Assembly of Wales is approaching next year.

Will this issue stay focused on to help improve our country and to keep everyone safe?.

I am pleased that a serious response to this is happening and heading towards keeping Wales a safer place for everyone.

## Eitem 4.9

### **P-05-908 CF3 yn erbyn y Llosgydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Evans, ar ôl casglu 2,224 o lofnodion ar-lein a nifer i'w gadarnhau ar bapur, sef cyfanswm o 2,224 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae cynlluniau i adeiladu llosgydd newydd yn CF3 ar Newlands Road, Gwynllŵg, Caerdydd. Mae hyn yn agos iawn i gartrefi ac ysgolion. Er enghraifft, nid yw ond 500 metr i ffwrdd o Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Mae llawer o breswylfeydd ac ysgolion eraill yn CF3 hefyd ymhell o fewn hanner milltir iddo.

Bydd y llosgydd arfaethedig yn llosgi 200,000 tonnall o wastraff diwydiannol y flwyddyn a bydd yn gweithio 24 awr, saith diwrnod yr wythnos. Y bwriad yw ei adeiladu mor gynnar â 2020/21.

Caiff y gwastraff diwydiannol sydd i'w losgi ei gludo i'r safle arfaethedig ar 80 o lorïau bob dydd, gyda phob un yn cario 20 tonnall o wastraff. Bydd hefyd angen cludo ymaith y lludw gwenwynig y bydd y llosgydd yn ei greu.

Bydd y safle yr un maint â 1.5 cae rygbi, a bydd y prif adeilad dros 40 metr o uchder; bydd corn y simnai dros 70 metr o uchder.

Rydym o'r farn nad yw trigolion CF3 am gael llosgydd yn eu cymuned. Credwn y bydd yn creu sŵn, llygredd aer a thraffig, ac na fydd yn dda i iechyd pobl sy'n byw yng nghymuned CF3.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru



2 June 2020

Jane Finch-Saunders AS/MS  
Cadeirydd/Chair  
Petitions Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff CF99 1SN

Dear Jane

**Petition P-05-908 CF3 against the Incineration**

Many thanks for your letter dated 27 May which was given to me to respond on behalf of our client, Môr Hafren Bio Power, who are proposing to build a new Energy Recovery Facility on a brownfield site, within an industrial park on Newlands Road, Wentloog, Cardiff CF3 2EU.

Petition

The petition states:

“The industrial waste to be burned will be transported to the plant site using 80 lorries everyday each carrying 20 tonnes of waste. The toxic Ash generated by the incinerator will also need to be transported away.”

The proposed development will not have 80 lorries every day and additional lorries to remove the residue. There will be 40 HGV visiting and 40 leaving the site Monday to Saturday. This figure also includes any lorries that will be removing any residue, some of which we hope will be taken away for recycling.

“It is planned to be built as early as 2020/21.”

This has never been the case. Originally, we anticipated the potential start of construction in 2021/22 and, with the 2-year build program, the plant would not be built and operation until 2023/24 at the earliest. However, with some additional support work, and Covid 19, the earliest the plant could be operational would be 2024. We believe that this statement is intended to make potential signatories of the petition believe that, this proposal is being rushed through without due process. This couldn't be further from the truth.

The proposal

We announced the proposed development in August 2019, which attracted significant media coverage, and Môr Hafren Bio Power conducted public consultation from 14 August until 29 November, a total of 107 days. This was the first phase of the consultation programme. Since then the development team has had time to review the feedback received and made a number of changes to the project, including conducting additional studies as part of the Environmental Impact Assessment (EIA) and reviewing some aspects of building design.

Given the current health emergency we have sought guidance from the Planning Inspectorate, before starting Phase 2, the statutory consultation phase. We were advised to wait until appropriate legislation was in place to accommodate DNS projects during these difficult times, this is now the case and so we can proceed to statutory consultation.

Continued/... Page 2

**PROTEUS COMMUNICATIONS GROUP LLP**

The Granary, Home Farm Drive, Upton Estate, Banbury, Oxfordshire, OX15 6HU  
Telephone +44 (0) 1295 678591 | Email [info@proteus-cg.com](mailto:info@proteus-cg.com) | [www.proteus-cg.com](http://www.proteus-cg.com)

Tudalen y pecyn 193



We anticipate starting the statutory consultation phase (which is not held face to face) later this month.

As the application falls under the Developments of National Significance (“DNS”) process, it is governed by the Planning (Wales) Act 2015, and the Developments of National Significance (Wales) Regulations 2016 (as amended). The DNS Procedural Guidance Version 2.2 (October 2019) states that statutory consultation involves consulting specific organisations and individuals including:

- Specific community consultees such as councillors
- Specialist consultees such as NRW, Highways Authorities, Health and Safety Executive etc
- A full list can be found in the Planning Inspectorate’s Developments’ of National Significance Procedural Guidance document V2.2 October 2019 section 2.10

We will run the statutory consultation for the necessary period and believe that we will not be submitting a potential planning application until August or September 2020.

We hope you have found this letter and the additional information supplied useful. Môr Hafren Bio Power is committed to open consultation with all of its stakeholders and further information can also be found on our website [www.morhafrenbiopower.co.uk](http://www.morhafrenbiopower.co.uk). The website will be fully updated by the start of statutory consultation later this month, this will include copies of the draft planning application, and supporting documents such as the Environmental Impact Assessment.

Yours sincerely



Paul Davison  
CEO

# Môr Hafren Bio Power

Tudalen y pecyn 195

Proposals for an Energy Recovery Facility in  
Wentloog, Cardiff



# Summary of proposal

- Wales needs to divert more waste from landfill
- This plant will:
